# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 347

Mawrth 2012

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Lansio Cynllun Amddiffyn

Dydd Iau Mawrth 8fed fe lansiodd John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, gynllun amddiffyn rhag llifogydd yn y Borth, Ceredigion fydd yn amddiffyn 420 o dai a busnesau a Lein Arfordir y Cambrian rhag llifogydd. Mae'r cynllun newydd wedi defnyddio creigiau rîff i amddiffyn yr ardal yn well gan roi hwb i'r gyrchfan hon sydd eisoes yn boblogaidd iawn gyda syrffwyr.

Mae i'r Borth hanes o lifogydd arfordirol a gallai storm drom gael effeithiau dinistriol ar y pentref a'i hanes cyfoethog. Roedd y gwaith adeiladu'n cynnwys adeiladu amddiffynfeydd newydd yn lle'r hen amddiffynfeydd pren, adeiladu amddiffynfa/rîff i syrffwyr, adeiladu dau forglawdd a dau argor a mewnforio miloedd o dunelli o gerrig mân a'i ychwanegu at argloddiau o gerrig mân naturiol.

Ariannwyd y cynllun gan Lywodraeth Cymru (£7.5m), Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (£5.49m) a Chyngor Sir Ceredigion (£0.16m). Wrth siarad yn y lansiad, dywedodd y Gweinidog:

"Mae'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd hwn wedi rhoi cyfle i ni wella amgylchedd ac amwynderau'r ardal. Trwy addasu'r rîff i wella'r amodau syrffio, mae'r cynllun wedi rhoi hwb gwirioneddol i'r diwydiant twristiaeth ac i'r economi leol hefyd. Bydd hyn o ddiddordeb arbennig i'r syrffwyr brwd sy'n ymweld â'r Borth bob blwyddyn.

"Yn ogystal â lleihau'r risg o lifogydd yn yr ardal a chefnogi safleoedd twristiaeth lleol, bydd y cynllun hwn o fudd i gymuned y Borth hefyd. Mae'n dysgu'r gymuned am beryglon llifogydd ac am y camau syml y gall pobl eu cymryd i wneud yn sicr bod eu cartrefi'n gallu gwrthsefyll llifogydd yn well. Mae'r preswylwyr wedi cael eu hannog i gofrestru gyda gwasanaeth Llinell Rybuddion Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd. Ni allwn roi stop ar lifogydd ac mae'n rhaid i gymunedau arfordirol barhau i fod yn wyliadwrus gan ei bod yn debygol y byddwn yn gweld mwy o lifogydd yn y dyfodol.

"Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw lleihau canlyniadau llifogydd, codi ymwybyddiaeth o lifogydd ac ymateb yn effeithiol i lifogydd a blaenoriaethu'n buddsoddiadau.

"Mae'r Borth yn enghraifft wych o ardal lle rydym wedi blaenoriaethu'n buddsoddiad er mwyn lleihau'r risg i gymunedau bregus."

Mae buddsoddi mewn rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol ar draws Cymru yn elfen bwysig o'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer creu lleoedd cynaliadwy i bobl Cymru fyw ynddynt.

Bu'r Cynghorydd Ray Quant, yr aelod lleol dros y Borth, yn cymryd rhan yn y cynllun o'r dechrau. Dywedodd: "Mae cymuned y Borth wedi croesawu'r prosiect a gall Cyngor Sir Ceredigion fod yn falch ohono; bydd yn diogelu'r Borth yn y dyfodol agos ac yn caniatàu amser i'r gymuned addasu a chynllunio ar gyfer dŵr y môr yn codi yn y dyfodol. Mae'r cynllun wedi mynd rhagddo yn hwylus gyda chymorth llawn trigolion y Borth a'r ardal ehangach."

**Am fwy o luniau o'r prosiect gweler http://www.borthcommunity.info**



**Mark Williams, AS, Y Cynghorydd Catherine Hughes, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, John Griffiths AC Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Mick Newman o gwmni Royal Haskoning, y Cynghorydd Ray Quant, Aelod Cabinet Priffyrdd, Eiddo a Gwaith; a Dirprwy Arweinydd, Jimmy Burns o gwmni Bam Nuttall, Elin Jones AC a Huw Morgan, Cyfarwyddwr Priffyrdd, Eiddo a Gwaith. Lluniau: Cyngor Sir Ceredigion**

Y cynllunwyr oedd Royal Haskoning, gyda'r prif waith adeiladu yn cael ei wneud gan BAM Nuttall Ltd, ac yn cael ei oruchwylio gan dîm rheoli prosiect o Atkins, Royal Haskoning a Chyngor Sir Ceredigion.

Bu angen cyfanswm o 300,000 tunnell o ddefnydd ar gyfer y gwaith adeiladu gyda'r mwyafrif llethol yn dod o chwareli lleol.



**Ymlacio ar ôl y seremoni.**

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 347 | Mawrth 2012


Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

## SWYDDOGION


**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD -** Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION -** Rhodri Morgan, Maes Mieri
Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER -** Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER -** Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136


## GOHEBYDDION LLEOL


**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Eirian Hughes, Lluest Fach ☎ 880 335; Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880 275; Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD EBRILL 12 ac EBRILL 13 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI EBRILL 26. Sylwer ar y dyddiad hwyrach oherwydd y Pasg.

MAWRTH 16 Nos Wener 'Lluniau Llachar' – gwneud y gorau o'ch camera digidol, Iestyn Hughes, Cymdeithas Lenyddol Y Garn yn festri'r Garn am 7.30

MAWRTH 24 Nos Sadwrn Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn; yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth; gwraig wadd: Caryl Parry Jones. Enwau i Ceris Gruffudd (828 017) Rhoshelyg@btinternet.com

MAWRTH 25 Dydd Sul Cofiwch droi y cloc ymlaen awr!

MAWRTH 31 Prynhawn Sadwrn Cylch Meithrin Rhydypennau yn trefnu Helfa Wyau Pasg ar gaeau Pantyperan, Llandre am 2.00 a phrynhawn coffi gyda stondinau amrywiol yn Neuadd Rhydypennau o 2.30 ymlaen.

EBRILL 19 Nos Iau Ffair Fwyd a Chrefftau Cymreig yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron wedi ei threfnu gan Fforwm Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru o 4yp tan 8yh.

EBRILL 20-21 Nos Wener a Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch
Nos Wener 5.30; Dydd Sadwrn 12.30 a 6.30

EBRILL 27 Nos Wener Noson Goffi Clwb Crefft Genau'r-glyn am 7.00.

MEHEFIN 9 Nos Sadwrn Noson o ganu gwlad gyda John ac Alun a Wil Tân yn Llety Parc, Aberystwyth o 8.00-11.30. Tocynnau: £10 Elw i Apêl Nyrs Ceredigion, Sefydliad Prydeinig y Galon.

24 MEDI Nos Lun Plaid Cymru Rhydypennau. Noson yng nghwmni Dr Eurfyl ap Gwilym. Croeso cynnes i ffrindiau ac aelodau o ganghennau eraill. Neuadd Rhydypennau, 7.30pm

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis.
Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

## EISTEDDFODAU RHANBARTHOL YR URDD CEREDIGION 2012

**17/03/12**
Eisteddfod Rhanbarth Cynradd Ceredigion - Pafiliwn Pontrhydfendigaid - *9.00yb*

**21/03/12**
Eisteddfod Ddawns ac Aelwydydd Rhanbarth
Pafiliwn Pontrhydfendigaid
*Dawns Cynradd 12.30yb*
*Dawns Uwchradd 3.30yp*
*Aelwydydd 6.00yh*

**23/03/12**
Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd Ceredigion - Pafiliwn Pontrhydfendigaid - *9.15yb*

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Chwefror 2012

£25 (Rhif 271) Rachel Annie-May James, Hendy, Pen-banc, Penrhyn-coch
£15 (Rhif 126) Gweneira Marshall, 1 Bro Gerddan, Penrhyn-coch
£10 (Rhif 6) Noa Rowland, Aberystwyth

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre, pnawn Mercher y 15fed o Chwefror.

Os ydych chi am fod yn Gyfaill cysylltwch â'r Trefnydd - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan. ☎ 880 228

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## Copi ar gael

Mae Pwyllgor y Tincer wedi derbyn copi o 'Darlun ystadegol o sefyllfa'r Gymraeg' gan Hywel M. Jones, cyhoeddiad pwysig sydd newydd ei gyhoeddi gan Fwrdd yr Iaith. Os hoffech fenthyg y copi plis cysylltwch â'r ysgrifennydd. Gellir gweld copi hefyd ar y wefan http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/Darlun%20ystadegol%20o%20sefyllfa%20y%20Gymraegf2.pdf

Annwyl Olygydd,

Gan ei bydd hi eleni yn ddeugain mlynedd ers i ni i gyd gyfarfod gyntaf, rydw i'n ceisio cysylltu â chymaint â phosib o'r rhai oedd, fel fi, yn cychwyn yn y Coleg Normal ym Mangor ym Medi 1972. A'r rheswm yw ein bod yn trefnu Aduniad ym mis Medi eleni i ni gael un cyfle arall i fwynhau ein cwmni ein gilydd cyn i ni i gyd ymddeol!

Bydd yr Aduniad yn cael ei gynnal ar nos Sadwrn, Medi 15fed, 2012 yn y Ganolfan Rheolaeth, sef hen ffreutur y Coleg Normal, ar Ffordd y Coleg ym Mangor. Bydd y pryd tri chwrs yn costio £25 ac mae'n bosib i nifer cyfyngedig archebu ystafell dros nos i aros yn hen adeilad Neuadd Eryri – sy'n dipyn mwy moethus erbyn heddiw.

Rwy'n gofyn am flaendal o £10 erbyn 30ain Mehefin 2012. Am fwy o fanylion neu ffurflen gais, cysylltwch â mi yn y cyfeiriad uchod neu trwy e-bost ar rhiatom@hotmail.com.

Edrychaf ymlaen at glywed gan lawer o hen ffrindiau.

Yn gywir iawn,

Rhiannon Thomas
Tŷ Croes,
Crymlyn,
Abergwyngregyn, Llanfairfechan,
Gwynedd LL33 0LU

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

**Cylch Meithrin Rhydypennau**

Addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2½ oed. Bob Bore Llun, Mawrth a Mercher yn Ysgol Rhydypennau. 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6 sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.

**Ti a Fi Llandre**

Cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. £1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.

# 20 Mlynedd 'Nôl




Aelodau o bwyllgor 'Gwylio Cartref' sydd yn gofalu am y rhan ogleddol o Bow Street yn dewis man i osod yr arwydd priodol, ger Ysgol Rhydypennau. O'r chwith i'r dde: Mrs Sheila Jones, Mrs Mari Carter, Mr Grifith Jones, Mr Martin Allen, Mrs Ann Jones a Mrs Mary Thomas. *Llun: Hugh Jones* (*O Dincer Mawrth 1992*)

# MADOG

### Suliau Madog

2.00

*Mawrth*

18 Bugail

25 Aled Lewis Evans

*Ebrill*

1 Bugail

8 Oedfa'r ofalaeth yn y Garn (Pasg)

15 Bugail

22 John Roberts

29 Nicholas Bee

### Cymdeithas Madog

Daeth tua hanner cant o bobl ynghyd i Gymdeithas Madog Nos Fawrth 14 Chwefror i fwynhau noson yng nghwmni Iola Wyn, merch Arthur ac Eirian Hughes sydd erbyn hyn wedi symud o Dregerddan, Bow Street, ac ymgartrefu unwaith eto yn Lluest Fach. Mae llais ac wyneb Iola yn gyfarwydd iawn i wylwyr ac i wrandawyr drwy Gymru gyfan, a hyfryd oedd ei chroesawu'n ôl i'r capel lle y magwyd hi, lle y priododd hi Iwan, a lle y bu cenedlaethau o'i theulu'n addoli.

Yn haf 2011 teithiodd Arthur ac Eirian, ac Iola a'r teulu i Oregon ar drywydd hanes William Griffiths, hen dad-cu Iola (tad Mr Griffiths, Lluest Fach). Dyma oedd testun y sgwrs ym Madog, ac fe gafwyd cyflwyniad ffraeth a diddorol yn olrhain eu pererindod i orllewin yr Unol Daleithiau. Ar ôl glanio yn San Francisco, llogwyd modur Dodge oren i fynd â nhw i'r gogledd, i Harney County yn nhalaith Oregon, ac i dref fach Burns.

Dyma'r ardal fynyddig lle y daeth nifer o wŷr a gwragedd o ogledd Ceredigion i weithio yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a degawdau cyntaf yr 20g. Cafodd rhai ohonynt waith gyda John Richard Jenkins (yn wreiddiol o Fwlch Roser, Elerch), ffermwr defaid llewyrchus yng Nghwm Anderson a Diamond. Un o'r rhai a aeth ato oedd William Griffiths a ymfudodd yn 1928 wedi iddo golli ei wraig gyntaf. Cawsom weld lluniau o'r ardal, a'r hen dyddynod, a'r mynwentydd lle y claddwyd rhai o'r Cymry — ac roedd sawl llun da o Arthur yn ei het cowboi ac o'i wyrion balch, Lleu a Chaeo!

Braf iawn oedd gweld cynifer o gyfeillion ym Madog — gan gynnwys perthnasau i rai o'r ymfudwyr. Llywyddwyd y noson gan Alwyn Hughes, Gellinebwen, a darparwyd panaid a theisennau i'r dorf gan ferched y Gelli a Gwar Cwm.

### Pen blwydd arbennig

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Eirlys Reeve (gynt o Ysgubor Newydd) ar ddathlu ei phen blwydd yn 70 oed yn ystod mis Chwefror.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Lyn a Dei Evans, "Deilyn" Cefn-Llwyd ar farwolaeth modryb Lyn, sef Blodwen Griffiths, Ysgubor Fach, Cwmystwyth.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Joan Charles, gweddw y diweddar Dr Allen Charles, rydym yn eu cofio'n byw am flynyddoedd ym Maes-yr-Onnen, Capel Dewi cyn symud yn ddiweddarach i Aberystwyth.

# LLANDRE

## Sefydliad y Merched Genau'r-glyn

Ar yr 8fed o Ragfyr aethom ar wibdaith i ymweld â'r Plasty yn Abaty Cwm-hir ym Mhowys. Adeiladwyd y plasty rhestredig Gradd II* ym 1814, enghraifft o adeiladwaith Adfywiad Gothig Fictoraidd wedi ei leoli o fewn 12 erw o dir. Cafwyd coffi a mins peis cyn dechrau'r daith o 52 stafell, pob un wedi eu haddurno yn naws y Nadolig. Gwelsom enghreifftiau da o nenfydau Rococo, 24 o lefydd tân gothig a ffenestri gwydr lliw, llechi llawr Minton Hollis, crochenwaith bendigedig, celfi o Indonesia, llestri gwydr, lliain a gwaith plastr addurnol pwysig. Oherwydd y tywydd garw methwyd ag ymweld â'r gerddi, ond daeth y diwrnod i ben gyda phryd o fwyd a chyfarfod byr yng Ngwesty'r Blueboy, Llangurig cyn dychwelyd i Landre.

Croesawyd ni gan ein llywydd i gyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd ar Ionawr 11eg. Ar ôl cyfarfod cyffredinol, cafwyd noson o yoga ysgafn yng ngofal Leslie Wheatley. Dangoswyd i ni'r pwysigrwydd o hyblygrwydd ac anadlu cywir. Mwynhawyd y noson gan yr aelodau gan ddarganfod fod ymarfer ysgafn yn hwyl.

Hefyd ym mis Ionawr cafwyd trip i Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth i wylio'r pantomeim blynyddol. Cynhyrchiad Y Wardens eleni oedd 'The Magical Adventures of Robin Hood'. Perfformiad clodwiw, gwisgoedd arbennig a digon o hwyl i'r gynulleidfa.

Ym mis Chwefror cafwyd sgwrs gan y Parchg Ian White. Dangosodd ei gasgliad diddorol a gwerthfawr o gardiau post o bob cwr o'r byd.

## Penodiad

Llongyfarchiadau i'r Athro Andrew Evans, Llys Berw, a benodwyd yn Gyfarwyddwr y Sefydliad Mathemateg a Ffiseg yn y Brifysgol. Cafodd yr Athro Evans ei addysgu yn Ysgol Ramadeg y Gwendraeth a Phrifysgol Caerdydd lle y derbyniodd radd dosbarth cyntaf mewn Ffiseg a doethuriaeth o dan arolygaeth yr Athro R.H. Williams FRS. Fe'i penodwyd i ddarlithyddiaeth yn Aberystwyth yn 1997, yn uwch ddarlithydd yn 2002 ac yna i gadair mewn ffiseg deunyddiau yn 2006

Mae'n arbenigo mewn deunyddiau sydd yn seiliedig ar garbon (moleciwlau organig a diemwnt) a'u nodweddion wrth ddefnyddio golau, electronau, pelydr x ac ymbelydredd syncrotron. Ar hyn o bryd mae'r Athro Evans yn cadeirio consortiwm y Deyrnas Gyfunol sydd yn datblygu cyfleuster pelydr x meddal newydd yn Diamond Light Source, mae'n gadeirydd Pwyllgor Llywio Fforwm Optoelectroneg Cymru, a chyd-gyfarwyddwr y Ganolfan Uwch Ddyfeisiadau a Deunyddiau Gweithredol.





Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn

## Merched y Wawr Genau'r-glyn yn dathlu 30 mlynedd



Marian Jenkins, Llywydd presennol, a Mary Thomas, y Llywydd 30 mlynedd yn ôl, gyda'r gacen a wnaethpwyd yn arbennig i'r achlysur gan yr Is-lywydd, Gwenda James.



Y gŵr a'r wraig wadd, Alan Wyn ac Ann Jones, yn mwynhau yng nghwmni y Llywydd, Marian Jenkins, a'r Trysorydd, Mary Thomas.

## Diwrnod Arbennig

Wedi yn agos i bum mlynedd o ymchwilio, cynllunio a chodi arian mae Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn ar fin cael ei gwblhau. Mae'r Llwybr, sy'n ddathliad parhaol o draddodiad barddol yr ardal, eisoes wedi creu diddordeb yn lleol a thu hwnt. Mae'n cynnig profiad unigryw i fwynhau 15 o gerddi yn naws hudolus y goedwig. Cynhelir yr agoriad swyddogol ar nos Iau Mai 17 ac mae Archdderwydd Cymru, Jim Parc Nest wedi derbyn gwahoddiad i fod yno i'w agor.

Trefnir gweithgareddau i gefnogi'r Agoriad yn ystod y penwythnos. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur.

## Merched y Wawr, Llanfihangel Genau'r-glyn

Yn ein cyfarfod fis Chwefror cyfunwyd dau achlysur.

Yn ogystal a dathlu Dydd Gŵyl Ddewi mi fu aelodau'r gangen hefyd yn dathlu 30 mlynedd ers sefydlu'r gangen. Brynhawn Sadwrn, 25 Chwefror aeth rhyw 20 ohonom i 'r Maes, yng Nghapel Bangor i gael pryd ardderchog o fwyd. Ein Gwesteion oedd Ann ac Alan Wyn Jones o'r Bow Street a braf oedd cael eu croesawu i ymuno â ni wedi 30 mlynedd, gan mai Ann ac Alan oedd yng ngofal yr adloniant ar y noson gyntaf un ym Methlehem.

Cawsom sgwrs ddifyr iawn gan y ddau wrth sôn am y noson gyntaf a chael gwybod hynt a helynt y rhai a fu'n cymryd rhan ar y noson. I ddiwedd y cyfarfod torrwyd cacen, a oedd wedi ei gwneud yn arbennig i'r achlysur gan Gwenda James ein

His-Lywydd, gan Mary Thomas, Llywydd cyntaf y gangen, a'r Llywydd presennol Marian Jenkins.

Bu'n ddiwrnod arbennig i'r Gangen gan i ni gyrraedd adref i weld Cymru yn ennill y Goron Driphyg yn erbyn Lloegr!

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn gydag Ann Prothoroe, Tynbedw, ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith, Dawn Brindley, yn Y Borth.

### Noson Goffi

Noson Goffi Clwb Crefft Genau'r-glyn. Nos Wener Ebrill 27 am 7.00 o'r gloch.

Cylch Meithrin Rhydypennau
yn trefnu

**HELFA WYAU PASG**
ar gaeau Pantyperan, Llandre
a
**PHRYNHAWN COFFI**
gyda stondinau amrywiol yn
Neuadd Rhydypennau
Dydd Sadwrn, 31 Mawrth
2pm yn Llandre
2.30pm ymlaen yn y Neuadd

Hwyl i'r plant a chyfle i gefnogi y Cylch Meithrin lleol.

### Treftadaeth Llandre

*RHAGLEN 2012*
**29 Mawrth**
Chwilota'r Tywi - ymchwiliad gan gymuned i'w hanes - Alice Pyper
**26 Ebrill**
Hanes Bwstryd a'i chyffiniau - Yr Athro Harold Carter
**17 Mai**
Lansiad y Llwybr Llên - Yr Archdderwydd Jim Parc Nest
**27 Medi**
Y Bwthyn Cymreig - arferion adeiladu'r tlodion gwledig - Eurwyn Williams
**25 Hydref**
Agweddau ar Hanes Cymru - Sïon Jobbins
**29 Tachwedd**
CCB ac arddangosfa

Cynhelir cyfarfodydd fel arfer yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre nos Iau olaf y mis, gan gychwyn am 7.30 yh
Aelodau (£5 tanysgrifiad) - mynediad am ddim.
£2 y cyfarfod i bawb arall
Ysgrifennydd: Roger Haggar.
Ffôn: 01970 820314

# TREFEURIG



### Arweinydd yn ymddeol

Dymuniadau gorau am 'ymddeoliad' hapus a haeddiannol i Angharad Fychan, Glanyrafon, Trefeurig. Mae Angharad wedi penderfynu rhoi'r gorau i arwain Côr ABC, a hynny wedi cyfnod o dros 10 mlynedd yn ddi-dor. Mae'r côr wedi tyfu ac wedi datblygu o dan ei gofal medrus ac ymroddgar, ac mae'r gwerthfawrogiad a'r diolch sydd wedi ei fynegi gan bawb yn gwbl ddiffuant.

### Cais i'r Loteri

Yn drist nid oedd y cais i'r Loteri yn un llwyddiannus.

Dewch i'r cyfarfod i drafod dyfodol y gymuned – nos Wener 16eg Mawrth am 7.30.

### Rhedeg Marathon

Pob lwc ym Marathon Llundain i Tracy Butterworth (gynt o Ben-bont Rhydybeddau) oddi wrth Lucy Thomson a'r teulu, Penrhyn-coch. Mae Tracy yn rhedeg ym Marathon Llundain ac yn codi arian ar gyfer Teenage Cancer Trust Unit (TCT) Caerdydd oherwydd mae'r uned TCT Caerdydd wedi bod yn trin Lucy ers mis Gorffennaf diwethaf. Dyma wefan - os ydych chi eisiau helpu Tracy i godi'r arian http://uk.virginmoneygiving.com/TRACYBUTTERWORTH





Mae Sain Ddisgrifio ar gael yn Gymraeg ar nifer o raglenni S4C. Mae disgrifiadau o symudiadau a mynegiant yn rhoi bywyd i raglenni ar gyfer pobl sy'n cael trafferth gweld.

Am fwy o wybodaeth am ein gwasanaeth Sain Ddisgrifio cysylltwch â Gwifren Gwylwyr ar 0870 600 4141 neu ewch i s4c.co.uk.

# PENRHYN-COCH

## Suliau Horeb

Gweler http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php

*Mawrth*

**18** 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
**25** 10.30 Oedfa bregethu Huw Roderick

*Ebrill*

**1** 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
**8** 10.30 Oedfa fore Sul y Pasg Gweinidog
**15** 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
**22** 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog
**29** 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 28 Mawrth, 11 a 25 Ebrill. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Mona Edwards, Hafod, sydd wedi bod yn cael triniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar.

## Cymdeithas y Penrhyn, Penrhyn-coch

Cafwyd noson hwylus yng nghwmni yr awdures Haf Llywelyn nos Fercher Chwefror 22ain. Bu yn siarad am ei magwraeth yng Nghwm Nantcol, Ardudwy a'r dylanwadau a fu arni o gael ei magu mewn ardal wledig, glos ar fferm deuluol. Roedd y cefndir a roddodd yn gwneud i ni werthfawrogi y cerddi a ddarllenodd wedyn o'r gyfrol - *Llwybrau* (Cyhoeddiadau Barddas, 2009). Clywsom fel y bu iddi ddechrau barddoni fel aelod o dîm Talwrn y Beirdd ond iddi gilio o'r Talwrn, dros dro, er mwyn datblygu arddull a llunio cerddi o'i dewis ei hun yn hytrach na chyfansoddi i bwrpas cystadleuaeth.



Clywsom am awduron eraill oedd yn gyd-ddisgyblion a hi yn yr ysgol ac am awduron eraill o Ardudwy a Meirionnydd. Roedd ei chyn-ddarlithydd yn Ngholeg y Normal - Rhiannon Davies Jones - yn cymryd diddordeb yn ei nofel nesaf - un hanesyddol ar deulu Nannau. Eglurodd wrthym am y gwahaniaeth oedd yna wrth ysgrifennu nofel hanesyddol yn hytrach na un gyfredol fel *Y Graig* (Y Lolfa, 2010) - sy'n nofel am ddyfodol fferm a ffordd o fyw sydd yn diflannu o gefn gwlad Cymru.

Er ei bod hi a'i theulu yn byw yn Llanuwchllyn ers blynyddoedd , ei ardal enedigol sy'n ysbrydoliaeth i'w cherddi ac yno yr aiff i gael testunau y cerddi yn y gyfrol. Clywsom am y gwahaniaeth rhwng cefn gwlad Gymraeg Ardudwy a'r dref Seisnig - Bermo - gan ofyn a ddylem ni ddangos ac agor llygaid rhai o'r trigolion i'r cyfoeth diwylliant a hanes sydd yna o'u cwmpas. Cafwyd cyfle i holi yr awdur ar y diwedd -ac roedd un neu ddau o'r gynulleidfa a diddordeb arbennig yn yr ardal dan sylw.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd cyfrol gan siaradwr fu yn y Gymdeithas cyn y Nadolig. Ymddangosodd *Yr Erlid* - hanes Kate Bosse-Griffiths a'i theulu yn yr Almaen a Chymru adeg yr Ail Ryfel Byd gan Heini Gruffudd o wasg y Lolfa.

Ceir adolygiad o'r *Y Graig* ar dudalen 13.

## Dymuniadau gorau

Pob lwc ym Marathon Llundain i Tracy Butterworth (gynt o Ben-bont Rhydybeddau) oddi wrth Lucy Thomson a'r teulu, Penrhyn-coch. Mae Tracy yn rhedeg ym Marathon Llundain ac yn codi arian ar gyfer Teenage Cancer Trust Unit (TCT) Caerdydd oherwydd mae'r uned TCT Caerdydd wedi bod yn trin Lucy ers mis Gorffennaf diwethaf. Dyma wefan - os ydych chi eisiau helpu Tracy i godi'r arian http://uk.virginmoneygiving.com/TRACYBUTTERWORTH

## Cangen Bro Dafydd Plaid Cymru

Cyfarfu'r gangen yn Festri Horeb nos Lun 27 Chwefror, a daeth criw da ynghyd. Cawsom sgwrs ddifyr iawn gan Gadeirydd y gangen, Dr Owen Roberts, Bwlch y Dderwen, Pen-bont Rhydybeddau, ar etholiadau diweddar yng Ngheredigion. Fe wnaeth fwrw golwg dros y cyfnod o 1992 hyd at y presennol, a dilyn hynt a helynt y Blaid yn etholiadau San Steffan a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y blynyddoedd hynny. Cafwyd llwyddiannau mawr a chafwyd siomiannau hefyd. Ceisiodd y siaradwr ddyfalu beth oedd y rhesymau dros y naill a'r llall, a hynny mewn dull difyr ac agos atoch. Wedyn fe gaed trafod ar y mater, a thrafod sut y gallai'r Blaid symud ymlaen orau yn y sir o'r man y mae ynddi ar hyn o bryd. Yn naturiol fe arweiniodd hynny ymlaen at drafod yr etholiad presennol am arweinyddiaeth genedlaethol y Blaid, a'r tebyg yw y bydd canlyniad yr etholiad hwnnw ar fin dod yn hysbys pan ymddengys y rhifyn hwn o'r Tincer. Diolch yn fawr iawn i'r Cadeirydd am noson ddiddorol iawn.



Plant Cylch Meithrin Trefeurig yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi.



Pwyllgor Cylch Meithrin Trefeurig yn derbyn siec o'r ROAB (Royal Antediluvian Order of Buffaloes) yn y noson Cawl a Chân ddiweddar a gynhaliodd y Cylch yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch..

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mr a Mrs Harries, 18 Ger-y-llan, a'r teulu ar golli chwaer Mrs Carris Harries, sef Mrs Bethan Utley, Ger-y-llan.

â theulu a chysylltiadau'r diweddar Elfyn Griffiths, gynt o Nant Seilo. Un o gymeriadau hoffus iawn oedd "George" fel yr adnabuwyd ef yn lleol.

â Connie Evans a'r teulu ar golli cyfnither yn ddiweddar, sef Brenda Cox o Drefechan ond gynt o Ben-bont Rhydybeddau.

â Jackie a Gwyn James, a'r merched Rosie, Jenny a Sian, 26 Glan Ceulan, ar farwolaeth mam Jackie - Margaret Meredith - yn ddiweddar. Roedd Mrs Meredith yn frodor o'r Borth.

ac â Nia Hafsia ac Emyr Jenkins a'u teuluoedd, ar golli eu mam, sef Menna Jenkins, Maesaleg. Hefyd ag Irfon a Wadad Williams, Cae Mawr. Cynhaliwyd yr angladd yn Horeb ddydd Sadwrn Mawrth 3ydd dan ofal ei gweinidog y Parchg Judith Morris yn cael ei chynorthwyo gan y Parchedigion J.E. Wynne Davies ac Adrian Williams. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Ceris Gruffudd. Traddodwyd y deyrnged gan y Parchg Peter M. Thomas a cheir crynodeb isod. Cafwyd gair gan Emyr – yn

diolch i bobl y Penrhyn am ymweld mor ffyddlon â'i fam yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gan Tirion am ei mam-gu. Derbyniwyd rhoddion er cof tuag ar Gapel Horeb d/o y Cyfarwyddwr Angladd, D.J. Evans.



Glenys Morgan o Ferched y Wawr gyda Emyr Pugh-Evans, arweinydd y Côr, a Judith Morris, hyfforddwraig y parti llefaru, yn cyflwyno £130 i Lisa Hughes Evans tuag at Ambiwlans Awyr Cymru, gwobrau Eisteddfod Penrhyn-coch y llynedd, a gyfrannwyd gan aelodau y Côr Cymysg a Pharti Llefaru Penrhyn-coch.

## Teyrnged

**Mrs Menna Jenkins, Maesaleg**

Deng mlynedd union yn ôl cynhaliwyd arwyl Dr David Jenkins, Cyn-lyfrgellydd Cenedlaethol, ysgrifennydd ymroddgar eglwys Horeb a gŵr a gerddodd yn drwm mewn llawer cylch gan eu hydreiddio a'i ddylanwad a'i weledigaeth. Ar brynhawn Sadwrn, 3ydd Fawrth daeth cynulleidfa luosog ynghyd i ffarwelio a'i briod hoff Mrs Menna Jenkins. Ma'na ystrydeb sy'n datgan: " Fod wrth gefn pob gŵr llwyddiannus - wraig dda a rhinweddol" ond yn hanes Menna Jenkins roedd hynny'n ffaith ac er mai yn y cefndir ac yn y cartref ac ymhlith ei theulu a'i chydnabod yr amlygwyd y mawredd a'r daioni hwnnw yn bennaf, bu ei chefnogaeth, ei chonsyrn a'i chariad yn ddiwyro a'i bywyd yn un a brydferthodd fywydau cynifer.

Fe'i ganed ar Fedi 3ydd, 1921 yn nhŷ ei nain ym mhentre' glofaol Hopkinstown ger Pontypridd - yn ferch i'r Parchg Owen Evans Williams a'i briod Morfydd. Roedd Owen Williams newydd gychwyn ar ei weinidogaeth yn Horeb, Penrhyn-coch, ond fel yr oedd yr arferiad ar y pryd, mi fyddai mamau ifanc yn mynd yn ôl at ei mamau ei hunain ar gyfer geni plant. Dwy flynedd yn ddiweddarach ganwyd ei brawd Irfon.

Cafodd ei haddysg gynnar yn ysgol y Penrhyn cyn symud i Ysgol Ramadeg Ardwyn yn Aberystwyth. Rhoes ei bryd ar nyrsio ac ar ddiwedd haf 1939, gyda hithau'n ddeunaw oed a'r Ail Ryfel Byd newydd dorri allan, trodd Menna i gyfeiriad Bangor ac i Ysbyty y C&A i dderbyn hyfforddiant fel nyrs. Wedi iddi gofrestru fel SRN, dychwelodd gartef i nyrsio yn Ysbyty Aberystwyth yn Ffordd y Gogledd. Parhaodd i nyrsio trwy gydol y rhyfel tan 1948 pan briododd â David Jenkins ei chariad cyntaf a phartner oes. Gŵr o Flaenclydach yn y Rhondda oedd David Jenkins ond a symudodd ym 1924 i fyw at ei fam-gu yn y Garth a'i Anti Lisa ym Mrogynin-Fawr. Dod yma i dreulio'r haf oedd y bwriad gwreiddiol er mwyn atgyfnerthu yn dilyn cyfnod o afiechyd, ond aros bu ei hanes, a dod yn un o drigolion y fro nodedig hon.

Wedi priodi defnyddiodd Menna ei doniau i ofalu a nyrsio aelodau'r teulu yn eu tro gan ddwyn iddynt ymgeledd a chysur ar derfyn oes.

Ar ddiwedd y pumdegau fe ddaeth Nia ac Emyr i'r aelwyd gan ddwyn llawenydd a dedwyddwch i'w rhan a chyda'r blynyddoedd dyfnhawyd y boddhad hwnnw gyda dyfodiad eu hwyrion a'u hwyresau - Trystan, Dafydd, Gruffydd, Tirion, Manon a Tomos. Hwy a gafodd y fraint o adnabod Menna Jenkins orau fel mam gariadus a gofalus ac fel mam-gu annwyl a chonsyrniol. Roedd hi'n meddwl y byd o'i theulu, yn gofidio amdanynt, ond yn eu caru'n fawr a hwythau yn eu tro yn ei charu hithau. Estynnwn iddynt o'n cydymdeimlad dwys a diffuant yn eu colled a boed iddynt brofi o gysur a thangnefedd Duw yn eich colled.

Pan ddeuthum yn weinidog i Horeb yn 1985, roedd aelwyd Maesaleg gyda'r mwyaf croesawgar a'i deiliaid gyda'r mwyaf selog yn yr oedfaon a dyna fel y bu trwy gydol fy ngweinidogaeth yma , Rwy'n cofio sylwi droeon fel yr oedd agoriad y drws yn y clo o'r tu fas fel petai'n cadarnhau fod yna ddrws agored a chroeso yn eich disgwyl. "Dewch yn rhydd a rhwydd" fyddai'r cyfarchiad yn gyson, ac fe ddeuthum i fel llawer un arall, i'w hanwylo a'u hedmygu'n fawr a hwythau yn eu tro yn gefnogol a hael ac yn werthfawrogol o arlwy'r oedfaon. Roedd yna wres ym mhersonoliaeth hawddgar Menna Jenkins a sglein ar ei chymeriad.

Yn y pethau cyffredin y gwelwyd ei mawredd. Gwraig y ffedog yn ei pharodrwydd i weini a gwasanaethu, bu'n sgubo'r lloriau a polisio'r corau, yn torchi llewyse i baratoi te ar y festri ac yn rhoi blodau'n gyson i harddu'r cysegr. Ei hosgo a'i diwyg yn ddestlus a glân bob amser. Fe gofiwn am ei chymwynasau tawel a'i charedigrwydd mawr, ei chonsyrn a'i gofal, ei dycnwch a'i ffyddlondeb. Bu'n ddygn yn casglu dros y blynyddoedd i waith y BMS ac yn gefnogol i fywyd y pentref a'r capel. Diolchwn i Dduw amdani ac am y fraint o'i hadnabod.

"Da lodes dda a ffyddlon, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

**Peter M. Thomas**



## Diolch

Dymuna teulu y ddiweddar Menna Jenkins ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau y 9fed o Chwefror fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein Llywydd, Judith Morris, ac ar ôl trafod tipyn o fusnes y gangen fe aed ymlaen gyda'r noson. A dyma i chwi noson! Fe groesawodd ein Llywydd ein gŵr gwadd a'i gydweithwyr, sef Huw "Ffash" Rees, oedd wedi dod i roi "Makeover" i un o aelodau Merched y Wawr Penrhyn-coch. Roedd cynrychiolaeth o dair cangen arall ac un Clwb Gwawr yn bresennol, canghennau Wyre, Mynach, Rhydypennau a Chlwb Gwawr Aberystwyth. Roedd y lle yn llawn. Roedd camerâu "Wedi Tri" yno, ond yn anffodus gan fod "wedi

## (parhad)... PENRHYN-COCH



**Mairwen gyda swyddogion y gangen - Wendy Reynolds a Judith Morris**

tri" wedi dod i ben ni ymddangosodd y noson ar y sgrin, ond ta waith am hynny, cafwyd noson wych ac fel y ferch lwcus, roedd Mairwen Jones wedi troi o fod yn hen wraig i fod yn Ladi go iawn. Ac yn well fyth cafodd gadw'r holl ddillad. Diolchwyd i Huw a'i griw am eu gwaith arbennig ac fe ddiolchodd pob cangen a oedd yn bresennol hefyd am gael ymuno â ni, ac i Huw am ei waith diflino. Mi ddiolchodd Mairwen hefyd i Huw drwy ddarllen pennill oedd wedi ei gyfansoddi yn arbennig gogyfer y noson. Ac i roi cap ar y cwbl hefyd, fe gyhoeddodd Huw mae Mairwen oedd wedi ennill cystadleuaeth gwneud Limrig yn *Y Tincer* a chyflwynwyd tocyn lyfrau o £20 i Mairwen. Cyn mynd tua thre fe dynnwyd y raffl ac fe gymerodd pawb at fwyta'r bwffe oedd wedi ei baratoi gan ferched Penrhyn-coch. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Elen Pen-cwm am gael y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Sgript orau Pantomeim yng nghystadleuaeth y Ffermwyr Ifanc.

### Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 20/21 Ebrill 2012

Gawn ni ddiolch o flaen llaw i chi sydd yn gefnogol i'r Eisteddfod bob blwyddyn. Mae yna wahoddiad i bawb i ddod atom eleni eto, prun ai dod i gystadlu neu i'r gynulleidfa. Fe fydd yna groeso cynnes i chi i gyd. Mae'n hanfodol i ni gadw ein heisteddfodau i fynd a chadw'r hen iaith yn gryf. Dewch yn llu!

Rhaglenni ar gael ar wefan plwyf Trefeurig http://www.trefeurig.org/ , trwy e-bost o Rhoshelyg@btinternet.com neu oddi wrth yr Ysgrifennydd, Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth, Penrhyn-coch, Ceredigion SY23 3XH (01970) 82064

### Urdd Gwragedd Sant Ioan Penrhyn-coch

Ar nos Lun y 5ed o Fawrth, cawsom gwmni'r Parchedig Ronald Williams. Testun ei ddarlith oedd 'Gwellianwr a Rhamantydd', hanes bywyd a gwaith William Alexander Maddocks (1773-1828), Tan yr Allt, Porthmadog. Adeiladydd 'y Cob' ym Mhorthmadog. Diolchwyd iddo gan y llywydd am gytuno ar fyr rybudd i'n diddanu

### Ffarwelio â'r Rheithor

Nos Sadwrn, Chwefror 25ain, cynhaliwyd noson gymdeithasol yn Neuadd yr Eglwys i drosglwyddo'r dysteb a thalu teyrnged i'r Parchg John Livingstone am ei waith yn y plwyf yn ystod y deng mlynedd a aeth heibio. Mae'r Parchg Livingstone yn ymddeol o'r weinidogaeth ac fel ficer eglwysi Elerch, Penrhyn-coch a Chapel Bangor.

Yn ôl dymuniad y ficer, noson anffurfiol a drefnwyd; cyfle i gymdeithasu dros swper. Cyn gwledda canwyd cân i gyfarch y ficer a'i wraig gan blant ysgol Sul yr Eglwys a chyn cyflwyno siec gan wardeiniaid Elerch rhoddwyd gair byr o ddiolch a gwerthfawrogiad o'i waith a'i gyfeillgarwch gan gynrychiolwyr o'r tair eglwys, Capel Horeb, Clwb Ymddeolwyr, Y Parchedig Ronald Williams ac Ysgol Myfenydd.

Hoffai swyddogion yr eglwys ddiolch yn fawr iawn i bawb - yn fudiadau ac unigolion a gyfranodd tuag at y dysteb ac i ferched y tair eglwys am y wledd a baratowyd.

## Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor uchod ar nos Iau 23 Chwefror yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. Heulwen Morgan. Mae llygod mawr yn poeni trigolion ystâd Maes Ceiro ers tro bellach. Daeth pibydd brith Cyngor Ceredigion allan o dan brotest braidd, gan fod rhaid talu £30 i'r adran os nad yw'r llygoden mewn tŷ. Ni wyddys eto beth fu canlyniad ei ymweliad ond deallir fod parchus glerc y Cyngor hwn wedi llwyddo i ddal un, a bod gŵr o waelod y stad wedi difa un arall. Anogir y Cyngor Sir i ddelio â phroblem y tir segur ger yr afon gan fod hwn yn lle delfrydol i fagu llygod. Mae sôn hefyd bod trigolion Maes Ceiro yn awyddus i ddatblygu y fangre yn leiniau gerddi. Bu sôn am hyn o'r blaen, pan ddangoswyd diddordeb gan arddwyr o ardal Tal-y-bont.

Mae baw cŵn eto yn rhemp ar y llwybrau yn Bow Street. Adroddwyd fod rhywrai yn cerdded eu cŵn wedi hanner nos ar hyd y ffordd fawr yn gyson gan adael y carthion yn y man a'r lle. Mae hyn yn ddifrifol o anghyfrifol gan fod plant yn cerdded y llwybrau i'r ysgol yn y bore. Mae pethau yn symud ymlaen i geisio gweithredu Is-ddeddf i atal cŵn yng Nghae Chwarae y Piod.

Adroddwyd bod y gwaith o uwchraddio rhan o ystâd Maes Afallon wedi cychwyn a bydd yn debygol o fynd ymlaen i wyneb yr haf.

Bydd Taith y Ffagl Olympaidd yn cyrraedd Aberystwyth tua 5pm ar Sul 27 Mai a bydd yna ddigwyddiad yn mynd ymlaen yn y dref i'w chroesawu. Bore wedyn, sef Llun 28 Mai, bydd yn pasio drwy Bow Street rhwng 8.30 a 9.00 o'r gloch, a thebyg bydd tyrfa o blant ysgol (ac oedolion) yn gwylio ar ochr y ffordd. Bydd y drafnidiaeth foreol ar stop!

Da oedd deall bod cymaint o bobl wedi mynychu cyfarfodydd i fynegi barn yn erbyn cau i lawr adrannau o Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. Bydd y Cyngor hwn yn parhau i gefnogi pob ymdrech bosibl. Penderfynwyd gadael mater cais Llety Ceiro am drwydded gwirodydd i Gyngor Genau'r-glyn.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Hinge bod parc gwyliau Glan-y-môr wedi gorfod tynnu "decking" i lawr oherwydd iddynt ymestyn ormod dros y ffiniau. Bu hefyd yn edrych ar broblem dŵr ym mhen ucha'r Dolau, a dywedodd fod y Cyngor wedi agor yr hen gwteri erbyn hyn. Rhoes adroddiad hefyd am y cyfarfod yn pennu treth y Cynghorau a'r Heddlu a gymerodd le y diwrnod hynny.

CYNLLUNIO. Mae'r cais am godi 6 annedd ar dir Clos Corwen, Llangorwen wedi ei wrthod gan yr Adran Gynllunio. Daeth un cais newydd gerbron, sef estyniad i ymestyn y gegin bresennol ar Fferm Bryncarnedd, nid oedd gan y Cyngor unrhyw sylw i wneud ar y cais.

Adroddiad yr Awdit. Yr unig sylw ganddynt oedd y dylid codi'r yswiriant a hynny rhag ofn i'r Clerc ddianc!

Daeth cais gan Gyngor Sir Ceredigion am gael gosod arwydd ar dir yn Llangorwen yn dynodi faint o ddamweiniau sydd wedi digwydd ar y ffordd. Dywedwyd fod mwy o angen un ar y ffordd fawr o Aberystwyth i'r gogledd lle mae damweiniau yn digwydd yn ddyddiol bron.

Mae parcio ar y ffordd i mewn i Gartref Tregerddan yn achosi problemau, mynegwyd y pryder hwn mewn llythyr oddi wrth ysgrifennydd Cyfeillion Tregerddan. Y mae'r Cynghorydd Hinge yn delio â'r mater ar hyn o bryd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 29 Mawrth 2012.


**RHODRI JONES**
**Brici a chontractiwr adeiladu**
**07815 121 238**
**Gwaith cerrig**
**Adeiladu o'r newydd**
**Estyniadau Patios**
**Waliau gardd**
**Llandre Bow Street**

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

# PEN-LLWYN / CAPEL BANGOR

### Adferiad buan

Dymuniadau da i Mr Alun Jenkins, Tegfan, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.

### Cwrdd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd

Cynhaliwyd y cwrdd gweddi uchod yn festri capel Pen-llwyn, Nos Wener Mawrth yr 2il. Paratowyd rhaglen yr oedfa gan Chwiorydd Cristnogol Malaysia, a'r thema oedd " Boed i Gyfiawnder Lwyddo." Yr arweinydd oedd Mrs Heulwen Lewis, a chymerwyd rhan gan aelodau o gapeli Pen-llwyn, Goginan, Llwyn-y-groes ac Eglwys Bangor. Mrs Cynthia Evans oedd wrth yr organ a'r wraig wâdd oedd y Parchg Judith Morris , a chafwyd ganddi anerchiad bwrpasol iawn.



**Rhai o blant Cylch Meithrin Pen-llwyn a'i staff yn mwynhau dathliadau Dydd Gŵyl Ddewi. Dewch i gwrdd a'n cefnogi ni yn ein Helfa Wyau blynyddol, i'w gynnal yn Ysgol Ponterwyd, 25ain o Mawrth, 3-5yp. Croeso i bawb.**

### Pen blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau Mr Gwyn Edwards, Hyfrydle, ar y pen blwydd arbennig. Nid ydych yn edrych ddiwrnod dros y trigain! Dymunwn i chi lawer pen blwydd eto i ddod.

### Cinio Sioe Capel Bangor

Cynhaliwyd y cinio eleni yng Nghlwb Golff Capel Bangor gyda bron i 90 o bobl yn bresennol. Croesawodd Andrea Jones ein Cadeiryddes pawb yn gynnes i fwynhau y noson. Cafwyd pryd o fwyd blasus iawn ac yna trosglwyddwyd arian y raffl, sef £160 i Cefin Evans, Rhiwarthen, ar gyfer elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Diolchodd Cefin am yr arian a rhoddodd fraslun o'r fenter "Yak Trak" roedd yn mynd i gymryd rhan ynddi yn ystod mis Mawrth. Diolchodd Andrea i bawb am bob cymorth i wneud y sioe yn llwyddiant y llynedd gan ddiolch i Eifion Thomas, Tyncwm, am fod yn lywydd am y flwyddyn. Edrychwn ymlaen yn awr tuag at Sioe 2012.

### Trên Bach y Rheidol



**Rhif 7 Owain Glyndwr, yn gadael Llanbadarn am Bontarfynach, ar Awst 28ain 1959, pryd oedd yna orsaf sefyll, ar ddymuniad, yn unig.**

Gwelwyd erthygl Saesneg yn ddiweddar gan Peter Johnson yn *Narrow Gauge News* yn dweud fod gorsafoedd trên bach y Rheidol yn dychwelyd. Mae yna grant cymorthwy ar gyfer adferiad o bump o orsafoedd cyfryngol Dyffryn Rheidol. Mae adeiladau y gorsafoedd i gael eu hadfer, gan Gronfa Grant Cynhorthwy Ewropeaidd, o dan raglen "Action Stations" Dyffryn Rheidol.

Y gorsafoedd o dan sylw yw Capel Bangor, Aber-ffrwd, Nantyronnen, Rheidol Falls a Rhiwfron. Roedd y ddwy gyntaf yn wreiddiol gyda llochesau cysgod a swyddfeydd wedi eu hadeiladu o bren a haearn. Roedd y lleill yn llochesau aros, yn unig. Pan oedd y gwreiddiol yn gweiddi allan am adnewyddiad, dymchwelwyd hwynt gan y Rheilffordd Brydeinig. Y swyddfa docynnau ym Mhontarfynach oedd yr unig un i oroesi, a chafodd eu rhestru gan CADW ym 1988.

Gobaith y Rheilffordd yw fod hyrwyddiad y gorsafoedd yn mynd i annog teithwyr i ddisgyn o'r trennau i ymchwilio afon Dyffryn Rheidol, ac i symbylu twristiaeth y sir. Mae angen gwirfoddolwyr i fabwysiadu y gorsafoedd er mwyn datblygu gerddi o'u hamgylch.

Yn 2010 cafodd trên bach y Rheidol grant o £300,000 o'r Cynulliad tuag at gost gweithdy peirianyddiaeth yn Aberystwyth. Ar ôl bron 25 o flynyddoedd o wasanaeth, bydd yr injan a adeiladwyd yn 1938, Rhif 4149 yn dychwelyd yn hwyrach eleni, wedi ei hatgyweirio yn helaeth.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Urdd y Benywod

Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni eto gyda noson o Gawl a Chân yng Nghanolfan Statkraft. Paratowyd y cawl gan Nancy Evans, Gwen Morgan a Norma Stephens. Ar ôl i bawb fwyta cawsom wledd o adloniant gan Sophie Rudge o Bow Street. Disgybl yn Ysgol Pen-glais yw Sophie ond mae wedi ennill enw mawr iddi hi ei hun ym myd y canu a chwarae y Delyn. Mwynhaodd pawb yr adloniant yma yn fawr iawn, a diolch i Nancy Evans am ei drefnu. Pleser mawr hefyd oedd croesawu Margaret Fitches atom i dderbyn siec o £300 ar ran marchogaeth i'r anabl. Rhoddodd Margaret fraslun o'r gwaith mae hi yn ei wneud gyda y plant anabl yma i lawr yng Nghanolfan Marchogaeth Rheidol bob prynhawn Gwener ac mi 'roedd yn ddiolchgar iawn am yr arian. Codwyd yr arian yma drwy ganu carolau o amgylch yr ardal cyn y Nadolig.Diolchodd Beti Daniel i bawb am eu haelioni ac am bob cymorth i wneud noson Gŵyl Ddewi yn un arbennig.

### Cofion

'Rydym fel ardal yn cofio yn arbennig am Hywel Ellis, Hywelfan, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty y Waun yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau a chofion cynnes a gobeithio y byddi yn darllen y Tincer yn ôl yng Nghwmrheidol.

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Barry Matthews, Y Gamlyn, ar ôl ei lawdriniaeth ar ei benglin yn ddiweddar.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â John ac Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, ar golli perthnasau yn ystod y mis yma eto. Collodd John ei fodryb, sef Blodwen Griffiths, Cwmystwyth ac Elizabeth berthynas yn Llanidloes.

# BOW STREET

### Suliau Mawrth - Ebrill 2012

Garn 10 a 5
www.capelygarn.org

*Mawrth*
18 Bugail
25 Aled Lewis Evans
*Ebrill*
1 Richard Lewis (yn Noddfa)
Beti Griffiths
8 Oedfa'r ofalaeth (Pasg)
15 Bugail
22 John Roberts
29 Nicholas Bee

Noddfa
1 Oedfa am 10.00 Oedfa Undebol yr Ofalaeth. Y Garn yn Noddfa.
8 Oedfaon Undebol Sul y Pasg ym Methel, Tal-y-bont am 10.00 a 2.00. Y Parchg. Peter Thomas.
15 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Cymundeb.
22 Oedfa am 5.00. Mr Arwyn Pierce.
29 Oedfa am 10.00. Gweinidog.

### Merched y Wawr Rhydypennau

Bu mis Chwefror yn fis pleserus iawn. I ddechrau, ar y 9fed, cawsom wahoddiad gan gangen Penrhyn-coch i ymuno â hwy i weld "Huw Ffash" a'i griw o Wedi 3. Mi ddysgwyd llawer am golur a gwisgoedd a chyflwyno rhaglenni!! Yr uchafbwynt oedd gweld Mairwen Jones ar ei newydd wedd ar ôl triniaeth gan y criw. Syfrdanol oedd y sylw. Ond nid dyna ddiwedd y noson, i orffen cafwyd paned a gwledd o ddanteithion wedi ei baratoi ar ein cyfer. Noson fendigedig, Diolch Penrhyn-coch.

Nos Lun y 13eg cawsom gwmni Wynne Melville Jones a ddaeth a rhai o'i beintiadau hyfryd i'w dangos. Cawsom bach o hanes ei gefndir celf yn gyntaf ac fel bu i'w fam baentio hefyd. Y llun cyntaf oedd peintiad o'r tŷ drws nesaf ac yna cyfres o luniau bythynod. Rhedai thema drwy ei beintiadau, a hanes diddorol tu ôl iddynt. Mae ganddo ryw brosiect ar y gweill o hyd, fel creu llwybr cerdd Genau'r-glyn. Noson ddifyr tu hwnt. Diolchwyd iddo gan ein llywydd. I orffen y noson cafwyd paned wedi ei pharatoi gan Brenda a Linda ac enillwyd y raffl gan Mair Lewis.

Cawsom wahoddiad arall nos Lun yr 20fed i ymuno â changen Aberystwyth i ddathlu gŵyl ein Nawddsant. Noson benigamp o adloniant gan ddau berson ifanc a thalentog dros ben, sef Nest Jenkins, a ganodd y delyn a llefaru ac Evan Miles Williams a ganodd. Ffantastig. I orffen y noson cafwyd paned a llond plât o fwydydd hyfryd. Diolch Aberystwyth.
Bydd mis Mawrth yn brysur i rai o'n haelodau gan ei bod yn amser chwaraeon y Mudiad. Pob hwyl i'r cystadleuwyr.

### Cymdeithas Lenyddol y Garn

Nos Wener, 17 Chwefror, roedd y cyfarfod dan ofal Eleri Roberts, Comins-coch. Yn gwmni iddi roedd Trefor Pugh a'r tair chwaer ddawnus o Landdeiniol, Alwen, Enfys a Glesni. Cafwyd gwledd o ganu ganddynt, yn unawdau a deuawdau, ac ambell adroddiad hefyd – o'r dwys i'r digrif – noson werth chweil yn wir.

### Ysgol Sul y Garn

Y tymor hwn mae plant yr ysgol Sul, dan arweiniad Mrs Janet Roberts a Mrs Rhian Jones-Steele, wedi bod yn dilyn gwerslyfrau newydd Cyngor yr Ysgolion Sul ar y thema 'Stori Duw', ac wedi derbyn copi yr un o'r Beibl Gweithgaredd. Rydyn ni hefyd wedi croesawu dwy aelod newydd i'r ysgol Sul, sef Megan a Lleucu. Ond y peth pwysicaf sydd wedi digwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn ydi bod ysgolion Sul y Garn a'r Noddfa wedi dod at ei gilydd ar dri achlysur i gynnal ysgol Sul ar y cyd. Mae'r arbrawf eisoes yn profi'n llwyddiannus, ac mae'n braf gweld nifer dda o blant a'u rhieni'n cefnogi'r cydweithio hwn. Gobeithio y bydd yn mynd o nerth i nerth yn y dyfodol – croeso i unrhyw blentyn ymuno!









## Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd

Yng Nghapel Noddfa y cynhaliwyd y cyfarfod gweddi eleni, prynhawn dydd Gwener, Mawrth yr 2il.

Croesawodd Mrs Mair Lewis y chwiorydd o'r tair eglwys o'r ardal oedd yn uno i gynnal y cyfarfod, a diolchodd i bawb a gymerodd ran.

**Capel y Garn**
Arweinydd: Mrs Shan Hayward. Mrs Margaret Rees, Mrs Meinir Roberts, Mrs Gwenan Clark Price, Mrs Meinir Hughes, Mrs Mary Thomas, Mrs Elina Davies a Mrs Bethan Jones.

**Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn**
Arweinydd: Mrs Elizabeth Collins. Mrs Susan Jenkins, Mrs Glenys Evans, Mrs Angela Wise, Mrs Susan Jones, Mrs Doreen Haggar, Mrs Carol Jenkins.

**Capel Noddfa**
Arweinydd: Mrs Mair Lewis. Mrs Beryl Bowen, Mrs Gwyneth Hunkin, Mrs Elizabeth Wyn, Mrs Diana Jones.

Traddodwyd yr anerchiad gyda neges bwrpasol ar y testun gosodedig "Boed i gyfiawnder lwyddo" , gan Mrs Mair Lewis, wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Mrs Nan Lewis, Peniel, Caerfyrddin, a diolch iddi am ei gwaith campus ar hyd y blynyddoedd.

Paratowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol Malaysia. Mae'r testun yn adleisio consyrn y gwragedd am y dyddiau presennol, fod gweithredoedd anghyfiawn yn bodoli hyd y dydd heddiw yno, yn enwedig ymhlith y gwragedd, a gofynnant am drugaredd a chyfiawnder.

Mrs Eryl Evans oedd wrth yr organ a gwnaed y casgliad gan Mrs Lynn Phillips a Ms Elizabeth Wyn. Gosodwyd y capel yn brydferth iawn gyda blodau, ffrwythau a chanhwyllau wedi eu cynnau a baner gan Ms Elizabeth Wyn. Gwnaed casgliad o £48.79 at waith y mudiad a llenyddiaeth Cristnogol a £4.40 (at gludiad y taflenni gan Noddfa). Wedi'r oedfa, derbyniwyd pawb i'r festri am gwpanaid o de a thamaid blasus i'w fwyta a chymdeithasu â'i gilydd. Diolch i chwiorydd Noddfa.

## Diolch

Fe hoffai Mrs Kitty Evans, Tan y Foel, Y Lôn Groes, ddiolch o galon am y llu cardiau, anrhegion a galwadau ffon a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Fe werthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn.

## Pen blwydd Hapus

Y mae un o adar bach y Gwanwyn wedi datgelu y bydd Mrs Gwenda Edwards, 3 Tregerddan, yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ar y 27in o Fawrth. Yr ydym yn dymuno pen blwydd hapus iawn iddi

# Y BORTH

## Clwb Henoed Y Borth

Mae'r tri mis diwethaf wedi bod yn rhai prysur iawn. Cawsom barti Nadolig, Cinio Nadolig yn Llety Parc yn cael ei ddilyn gan adloniant gan blant Llwyn yr Eos. Ym mis Ionawr aethom i'r Pantomeim a chawsom de parti arall yn Ionawr. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ymlaen at gael ymweliad gan ein ffrindiau o Ysgol Craig yr Wylfa. Mae staff a disgyblion ysgol Craig yr Wylfa yn edrych ar ein holau yn arbennig o dda gan ddarparu cinio i ni unwaith y mis. Ar ôl y cinio byddwn yn cael sgwrs neu adloniant gan y plant. Diolch i Wendy, y gogyddes, hefyd am ein bwydo.

Cadeirydd y Clwb am 2012 yw Betty a medrwch gysylltu â hi ar 871135 neu efo Par, ein hysgrifenyddes ar 822111, os dymunwch gael mwy o wybodaeth am ein Clwb.

## Ysgol Sul Sant Matthew

Cafodd plant yr Ysgol Sul amser prysur dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd rhwng perfformio Drama'r Geni, y Gwasanaeth Carolau ac yna y Cristingl yn Ionawr. Bydd yr arian sydd ym mlychau Cristingl y plant yn cael ei gyfrif ar ôl y Pasg a'i gyflwyno i blant llai ffodus na ni.
Mae 5 o ieuenctid yr Ysgol Sul wedi ymuno â dosbarth paratoi gogyfer a'u Conffformasiwn a byddant yn cael ei Conffformio mewn gwasanaeth arbennig o dan ofal yr Esgob Wyn ym mis Mai – pob bendith arnynt.
Os gwyddoch am unrhyw blentyn a fyddai'n hoffi ymuno â'r Ysgol Sul, cysylltwch â Joy ar 871649 – mi fydd yna groeso mawr iddynt. Rydym yn cyfarfod ar fore Sul am 11.15 yn y Den y tu ôl i'r Eglwys.



**Llinos Evans (Ysgrifennydd), a John Hughes (Llywydd) Cymdeithas Gymraeg y Borth gyda Gwilym ac Ann Fychan, y gwesteion yn y Cinio Gŵyl Ddewi.**

## Cymdeithas Gymraeg Y Borth

Buom yng Nghlwb Golff y Borth nos Wener yr ail o Fawrth yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi.
Cawsom bryd hyfryd o fwyd i gychwyn ac yna estynodd ein Llywydd, John M. Hughes, groeso arbennig i'r Gŵr a'r Wraig Wadd – sef Ann a Gwilym Fychan o Abercegir. Bu'r ddau wrthi yn sôn am wahanol bethau sydd wedi ei chyffwrdd ac yn darllen dipyn o'i barddoniaeth i ni. Noson ddifyr iawn yn wir.

Ni fydd mwy o gyfarfodydd o'r Gymdeithas yn ystod y tymor – felly pawb i gadw dyddiad y trip (20 Mehefin) yn rhydd!

## Priodas ruddem

Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau i Maldwyn a Susan Williams, 38 Heol Aberwennol, ar ddathlu eu priodas ruddem yn ystod mis Chwefror.



# Helo o Ohio a dydd Gŵyl Ddewi hapus!



Ar y llwyfan tra'n perfformio "Salem" yn y Wledd Ŵyl Ddewi; o'r chwith i'r dde: Lauren Holmes, Lisa Jones, Nathan Wood, Lucy Colley

Mae'r amser wedi hedfan ers i mi adael Cymru fach a cyn i mi droi mhen, roedd hi'n Fawrth y 1af! Ers i mi gyrraedd, roeddwn yn gweithio ar ddatblygu rhaglen ar gyfer Gwledd Gŵyl Ddewi, Oak Hill; roedd rhaid i'r rhaglen gynnwys trefniadau arlwyaeth, adloniant a chanu-grŵp gyda arweinydd. Penderfynwyd yn y cyfarfodydd cyntaf y byddai perfformiad wedi'i seilio ar lun enwog Sidney Curnow Vosper, sef "Salem", yn berffaith ar gyfer yr achlysur. Felly, fe es ati i ymchwilio'r testun ac fe sylweddolais fod yna lwyth i ddarganfod am un o luniau enwocaf Cymru yr ydym yn cymryd yn ganiatâol. Tra'n ysgrifennu'r sgript i'r perfformiad yma, cefais fy ysbrydoli gan Sioe Gerdd Steven Sondheim, sef *"Sunday In The Park With George"*. Mae'r Sioe Gerdd yma'n trafod llun sydd wrthi'n cael ei beintio ac fe ddaw cymeriadau'r llun yn fyw wrth iddynt aros yn llonnydd i'r artist. Dyma oedd sail fy sgript i; gan greu personoliaethau i'r cymeriadau a welwyd yn y llun, roeddwn yn medru creu perfformiad deinamig, llawn naratif - caneuon a barddoniaeth. Fe ddefnyddiais un o ganeuon Endaf Emlyn, "Salem Yn Y Wlad", gyda'i ganiatâd a'i fendith ef ar ôl i mi anfon ebost ato yn gofyn am y geiriau. Hefyd, fe wnes i gynnwys cerdd T.Rowland Hughes, "Salem", yn y Gymraeg a'r Saesneg gan mai dim ond fi oedd yn medru'r iaith Gymraeg ac roedd gweddill y cast yn hanu o ganol Ohio. Yn ogystal â threfnu'r adloniant, cefais fy ngofyn i arwain y canu ar ddiwedd y noson. Roedd hyn yn fraint i mi am nad wyf wedi cael fy ngofyn i wneud sut fath beth adre er i mi wybod fy mod i'n medru. Fe ganon ni 'mond 4 emyn bach, eto yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond fe'i canwyd gan Gymry-Americanaidd yr ardal felly doedd dim angen i'w perswadio i ganu allan! Roedd y noson yma, a gynhaliwyd ar Fawrth 3ydd, yn lwyddiant ac roedd canu'r anthem tra'n arwain yn deimlad bendigedig!

Dathliad Gŵyl Ddewi arall mae'n rhaid i mi sôn amdano yw'r Cinio a fynychais yng Nghlwb Gwledig Worthington, Columbus ar y 25ain o Chwefror gyda'r *Welsh Society of Central Ohio*. Roedd y cyfarfod yma yn un llawn o seminarau ar Gymru ac ar Ddewi Sant ei hun yn ogystal â sut mae'r diwrnod yma'n cael ei ddathlu nôl yng Nghymru. Roeddwn i yn rhan o un o'r seminarau, *"Little Cardiganshire"*, a gafodd ei gyflwyno gan Jeanne Jones-Jindra, Cyfarwyddwraig Canolfan Madog ym Mhrifysgol Rio Grande. Fe wnes i hefyd ganu dwy bennill o "Gwahoddiad" iddynt ac roedd hynna'n ddigon i doddi calonnau'r holl Gymry-Americanaidd oedd yn yr ystafell. Fe ddywedodd llawer ohonynt i mi fy mod i'n eu hatgoffa o'u cyn-dadau gyda'm acen gref o Sir Ceredigion ac yn wir, pan roeddwn yn siarad yr iaith Gymraeg, roeddynt yn medru clywed eu cyn-dadau yn siarad yr iaith hefyd. Beth wnaeth fy nghroen i wrido oedd canu'r anthem tra'n ymwybodol fod ein bechgyn rygbi wrthi'n ennill yn erbyn y Saeson yng nghystadleuaeth Rygbi y 6 Gwlad. Mae'n beth anhygoel canu'r anthem mewn ystafell llawn Cymry ... ym mhen draw'r byd! Byth gofiadwy fydd hyn i mi, a dwi'n siwr y caf y teimlad yma eto yn fy mhrofiad i yma yn Ohio.

**Lisa Jones**

## ytincer@googlemail.com


TACSI EDDIE
TACSI AR GYFER POB ACHLYSUR, A CHAR ADDAS O SAFON UCHEL I'R ANABL.
BYSUS MINI AR GAEL HEFYD
FFONIWCH:
CONNIE AR 828 642
TINA AR 07790 961 226


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
newyddion i
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

JONATHAN JAMES LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

M THOMAS
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

## COLOFN MRS JONES

Gwneuthum beth y dydd o'r blaen na feddyliais erioed y buaswn yn ei wneud, ymuno â Facebook. Fy mhrif reswm am wneud oedd fy angen am fedru cyfathrebu â phobl a hynny yn weddol sydyn a'm bod yn ymwybodol fod pobl bellach yn fwy tebygol o fod yn pori yn Facebook nag yn agor eu hebyst. Ar ben hynny, dim ond i mi ofalu bod yn ddwyiethog, gallaf anfon negeseuon i'm teulu a'm teulu yng nghyfraith yr un pryd.


Mae cyfathrebu â phobl pan fedrwch chi gyfrif nifer y rhai fedrwch chi eu clywed a'u deall ar y ffôn ar un llaw yn bwysig yn enwedig i greadur fel fi sydd yn treulio hyd at naw deg y cant o f'amser ar fy mhen fy hun. Ni wn am gyfuniad mwy marwol na swildod a byddardod i wneuud i bobl feddwl eich bod yn anghymdeithasol. Fe wn y gall rhai ohonoch gydymdeimlo ond fe wn hefyd fod rhai ohonoch yn meddwl sut y gall rhywun sydd â digon o wyneb i gymryd gwasanaethau fod yn swil ond gwir y gair ac y mae esboniad rhag ofn i chi feddwl mod i yn megalomaniac. Pan wyf fi yng ngofal gwasanaeth neu bwyllgor, y fi sydd yn arwain cyfeiriad y digwyddiad, nid wyf yn gorfod aros i neb siarad â mi a gallaf gymryd yn ganiatâol y byddaf yn gwybod trywydd y sgwrs sydd yn help i'r diffyg clyw, wrth gwrs. A help arall i hwnnw yw  mai ar un person ar y tro yr wyf yn gorfod canolbwyntio ac y gallaf reoli y sŵn amgylchol yn ogystal. Dyna paham sut yr wyf yn medru gweithio â'r cyhoedd fel llyfrgellydd cyhyd a nad ydynt yn sibrwd neu fwmblan, wrth reswm. Ond gall  cynnal sgwrs mewn tyrfa  fod yn anodd gan fod  sawl person yn y sgwrs ac na allaf ganolbwyntio ar un person yn unig nac ychwaith reoli sŵn o'm cwmpas.Y cwbl allaf i ei wneud mewn aml i barti yw gwenu yn neis a chytuno â phawb gan obeithio'r nefoedd nad wyf wedi cytuno i wneud rhywbeth.

Fe fyddai Meirion yn gwaredu deall i mi ymuno â Facebook, yn wir nid wyf yn siwr na fyddai wedi gwrthod gadael i mi wneud er fe fyddai hynny yn ddigwyddiad hanesyddol. Ond roedd ganddo amheuaeth ddwfn o'r we cyn inni gael cyfrifiadur ag i yntau ddechrau pori drosto ei hun a gweld gwirionedd y ddadl fod y we mor  foesol a diogel a'r person oedd yn ei defnyddio. A mae'r un peth yn wir am wefannau megis Facebook, rhaid gofalu nad oes dim gwybodaeth bersonol iawn yn ymddangos arni. Er enghraifft, y mae pawb sydd eisiau fy nghyfeiriad yn ei wybod felly nid wyf wedi ychwanegu hwnnw.Yn yr un modd, trwy ebost yr anfonaf unrhyw newydd cyfrinachol  fai gennyf at y teuluoedd a chyfeillion. A roedd hi yn hawdd iawn gwrthod cais y Nigerian a fynnai fy nghyfarfod a hynny ar frys. Synnwyr cyffredin ydi'r peth fel byddai Ifas y Tryc yn ei ddweud ond peth prin ydi hwnnw yn aml, wrth reswm.

Ond, er prinder synnwyr cyffredin, ni fedraf ddeall paham fod pobl yn cael eu hunain i drwbl gyda gwefannau fel hyn. Mae yn union yr un egwyddorion ag sydd yn rheoli diogelwch bob dydd ar waith yma, meddyliwch, os na fyddech chi yn fodlon gwahodd rhywun i'ch tŷ yn y cnawd, pa reswm bynnag sydd gennych dros hynny, pam ddylech chi wahodd rhwyun yn rhithiol ac ymddiried ynddo? Ni cherddai neb at berson hollol ddiarth ar y stryd a rhoi ei holl fanylion banc iddo, er enghraifft, felly pam gwneud hynny ar y we? Cyn-gariadon yw maen trramgwydd eraill. Rwan, gallaf ddeall y chwilfrydedd sydd yn arwain pobl i sbecian hynt  a helynt hen gariadon a chyfeillion ond ni fedraf dddeall y chwilfrydedd i ail gychwyn perthynas â hwy.Wedi'r cyfan, petai'r berthynas yn gweithio, ni fyddai'r ansoddair 'hen' yn addas ac, yn achos y cyn-gariadon, pam creu loes a gofid i'r teulu sydd gennych? Hawdd cynnau tân ar hen aelwyd yw'r hen ddihareb, mi wn, ond dylai paham y bu i'r tân oeri a faint o flynyddoedd sydd ers iddo ddiffodd yn ogystal a moesoldeb sylfaenol fod yn drech nag unrhyw ysfa i ymgyrraedd am y fegin!

Fel y dywedodd fy nghhyfnither wrthyf mewn e-bost, hithau hefyd yn newydd ar Facebook, peth i gyfrannu yn sbarin iddo ond i'w ddefnyddio yn ffri i sbecian ar eraill yw mewn difrif......Ond mi wn i un peth yn bendant, ni ymunaf â Twitter er fe osodwyd pwysau arnaf i wneud gan fy chwaer yng nghyfraith er lles meddwl y teulu...hynny yw, am wn i, er mwyn i bawb wybod mod i yn mynd a'r ci am dro a mod i wedi dod yn ôl ar ôl y tro...digon disens ydi Tweets aml un ond fe fyddai fy rhai i yn well na Mogadon. Fe gychwynnais gadw dyddiadur y llynedd ond buan y sylweddolais mai yr unig amrywiaeth ynddo o ddydd Llun i ddydd Sul  oedd y tywydd !

# Adolygiadau




*Cawlach Gŵyl Ddewi*
Casgliad o Straeon a Cherddi'n Dathlu'r Ŵyl
Gwasg Gomer 96t. £7.99

Mae'r gyfrol hon yn lliwgar, yn wreiddiol, ac yn meddu ar ddiwyg ac ansawdd ardderchog. Dyma gasgliad o straeon, o bytiau hanesyddol, ac o gerddi, i gyd yn dathlu gŵyl ein nawddsant. Yn y llyfr ceir cyfraniadau gan dros ddwsin o lenorion, gan gynnwys Gwyn Thomas, Aneirin Karadog, Meinir Pierce Jones ac Eurgain Haf.

Cyfrol lawn amrywiaeth ydyw, sy'n cynnwys rhywbeth fydd yn sicr o fod at ddant pob plentyn. Mae ynddi gerddi syml, megis 'Bara a Dŵr', sy'n cynnwys odl a chryn dipyn o ailadrodd fydd yn apelio at blant iau, ynghyd â cherddi mwy soffistigedig megis yr englyn 'Dewi Sant' fydd yn cynnal diddordeb plant hŷn. Ceir ynddi stori dylwyth teg – i'r plant iau unwaith yn rhagor, ond bydd mwyafrif y straeon, a'r darnau hwy sy'n cynnwys manylion a ffeithiau hanesyddol, yn cynnig her i blant hŷn a'r rhai mwy chwilfrydig. Cynigia'r gyfrol ddarnau y bydd modd eu defnyddio yn yr ysgol fel man cychwyn ar gyfer prosiect neu destun gwers.

Maria Royse sydd wedi darparu'r lluniau ar gyfer y llyfr, ac mae ei darluniau, er yn syml, yn hoffus ac yn gweddu'n arbennig i'r testun. Dyma waith fydd yn sicr o fod yn gaffaeliad i'r dosbarth a'r aelwyd fel ei gilydd.
**Janice Jones**

---



Haf Llewelyn *Y Graig* Y Lolfa 160t. £6.95
Caiff y llygad ei ddenu'n syth gan glawr trawiadol y nofel hon. Iona Jones a'i lluniodd, a hi hefyd hefyd fu'n gyfrifol am y darluniau yn Llwybrau, casgliad o gerddi gan yr awdures a gyhoeddwyd yn 2009.

Fferm yw'r Graig, a dyfodol y fferm sy'n sbarduno digwyddiadau'r nofel hon. Yn ogystal â dyfodol y Graig ei hun, gellir dadlau bod y nofel yn trafod dyfodol ffordd o fyw sydd yn prysur ddiflannu o gefn gwlad Cymru.

Mae bob pennod yn y llyfr yn dwyn enw un o'r cymeriadau, felly mae'r stori'n cael ei hadrodd o sawl persbectif. Ar un llaw, mae hon yn dechneg ddadlennol, sy'n dangos yn glir sut y mae digwyddiadau yn ymddangos yn wahanol i wahanol bobl, ond gall hefyd fynd yn feichus, gan ein bod yn profi nifer o ddigwyddiadau fwy nag unwaith wrth i'r nofel fynd rhagddi.

Mae cyfrinachau o'r gorffennol yn dod i anesmwytho aelodau teulu'r Graig, eu cymdogion a'u cydnabod. Effaith y cyfrinachau hyn, sy'n lledu fel y cylchoedd a grëir gan garreg wedi ei thaflu i'r dŵr, a geir yma.
Mae'r cymeriadau yn hynod gredadwy, er bod rhai yn gymysgedd mwy boddhaol o'r da a'r drwg na'i gilydd. Mae'r iaith yn naturiol ac yn raenus ac yn adlewyrchu dywediadau cefn gwlad, yn enwedig ym mhenodau Iori'r Weirglodd, a fu'n benteulu. Yn ogystal, mae'r cymeriadau amrywiol - teulu'r Graig, pobl ddŵad yr ardal, a'r ymwelwyr - yn cynnig adlewyrchiad real o'r fro yn yr oes sydd ohoni. Ac yn sicr, mae'r ardal, a'r disgrifiadau godidog ohoni, yn rhan annatod o'r nofel.

Plot digon ystrydebol a geir – y gorffennol yn dylanwadu ar bresennol y cymeriadau. Ond mae dawn dweud Haf Llywelyn, a'r ymdeimlad sydd ganddi at ei hardal yn disgleirio trwy'r gyfrol hon ac yn ei chodi uwchben y rhelyw.
**Janice Jones**

Adolygiadau oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454

linda.griffiths01@btinternet.com

Gofal Traed Aber
Ceiropodydd / Podiatrydd cofrestredig H.P.C.
Triniaeth ar ewinedd a chyrn
Llawdriniaeth ar gasewinedd
Triniaeth / asesiad arbenigol ar draed diabetig
Gwadnau ac asesiad biomecanyddol
TRINIAETH YN Y CARTREF AR GAEL
Cysylltwch gyda Shân Jones neu Richard Ellison ar 01970 617269 am apwyntiad

ytincer@googlemail.com

# Ffarwelio â theulu Gwyddfor

## - Enid ac Alun Jones wedi symud i Chwilog

Roeddwn i ar fy ngwyliau yng Ngwlad Groeg ym mis Gorffennaf 2011 pan ganodd y ffôn a dod â'r newyddion ysgytwol am ddamwain angheuol Gwion (y Dr Gwion Rhys).

Y diwrnod wedi dychwelyd nôl i Gymru roeddwn yn eistedd mewn capel yn Chwilog ar gyfer angladd Gwion ac yn rhyw geisio dirnad y tristwch, y boen a'r golled enbyd i wraig, plant, rhieni a brawd. Ymdrechu i rannu yn y brofedigaeth ac yna sylweddoli ar ôl i ni roi gweddillion Gwion ym mhridd Chwiliog bod yna ergyd arall wrth i Alun droi ata i a dweud "Yma fydda i ragor ti'n gweld...".

Des i i adnabod Alun yn y chwedegau yn y Gwersyll yn Llangrannog ac yntau yn brif ddyfeisydd ffformiwla newydd arloesol oedd yn llwyddo i droi dysgwyr yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd y wyrth yn digwydd o flaen ein llygaid a'r brwfrydedd yn heintus.

Yn fuan wedi i ni symud i'r ardal hon clywais bod Alun a'i wraig Enid yn awyddus i symud i fyw i ardal Rhydypennau wedi iddo gael ei apwyntio i staff Ysgol Penweddig. Daethom yn ffrindiau agos. Roeddem yn cerdded yr un llwybrau a'n diddordebau yn debyg.

Nyrs oedd Enid wrth ei galwedigaeth ac enillodd ei phlwyf yma fel nyrs ardal ac yna yn arbennig wrth weini ar gleifion oedd yn dioddef o salwch terfynol.

Roedd Alun wedi dod yn enw cenedlaethol yn bennaf





**Parti Cydadrodd Nantafallen (a sefydlwyd gan Alun) ar ôl cymryd rhan yn seremoni agor y Babell Lên yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r cyffiniau, Machynlleth 1981.**

am ei waith rhyfeddol gyda Dysgwyr ac fel beirniad eisteddfodau yn lleol ac yn genedlaethol. Byddai darllen cv Alun erbyn hyn yn drawiadol gan iddo wneud ei farc fel athro, awdur, eisteddfodwr, hyfforddwr. Prif Arolygydd y Gymraeg (CBAC), darlithydd Prifysgol a Phrif Olygydd Y Lolfa.

Er i hyn i gyd fod yn gyfraniad sylweddol iawn i fywyd cenedlaethol Cymru bu teulu Gwyddfor yr un mor weithgar yn lleol. Bu Alun yn Olygydd *Y Tincer* a bu'n cyfrannu'n gyson i gynnwys y papur dros y blynyddoedd.

Nawr, gydag Enid ac Alun yn sefydlu cartref newydd yn Chwilog byddwn yn gweld eu heisiau yng Nghapel y Garn, Yr Urdd, Y Blaid, Merched y Wawr, Cylchoedd Cinio a bydd Clwb Rygbi Aber yn colli un o'i gefnogwyr ffyddlonaf. Byddwn hefyd yn gweld eu heisiau mewn cymaint o weithgareddau cymdeithasol yn yr ardal.

Mae'r rhod yn dal i droi ac mae ein colled ni yn ennill i Chwiliog. Yn ôl y sôn mae Alun wrthi eisoes yn hyfforddi ar gyfer Eisteddfodau'r Urdd yn Eryri.

Mewn cyfnod pan yw ein cymunedau yn wynebu newidiadau dirfawr yn gymdeithasol ac yn ieithyddol mae'r gwagle o golli teulu ymroddgar o argyhoeddiad cymaint yn fwy. Colli ynni, brwdfrydedd a theyrngarwch a wnaeth gymaint i wella ansawdd ein bywyd yn yr ardal hon.

Rydym yn dymuno'n dda iddyn nhw yn Chwilog. Mae gennym atgofion da hefyd am Gwion a'i wên a'i barabl direidus.

**Wynne Melville Jones**

# Myfyrdod y Pasg

Flynyddoedd yn ôl, 'pan oeddwn i'n weinidog yn Glasgow, un o 'nghyfrifoldebau oedd arwain grŵp pobl ifainc rhwng tua 16 a 25 oed. 'Roeddwn i'n ifanc fy hun, bryd hynny, ond "hed amser"; bu i nifer o'r grŵp droi'n ddeugain oed y llynedd! 'Roeddynt yn griw arbennig iawn; eu hagwedd oedd "Hei – mi 'rydan' ni'n 'cool' [dyna air mawr diwedd yr 80au!] a 'rydan' ni'n mynychu'r eglwys – felly mae mynychu'r eglwys yn 'cool' hefyd!"

Cofiaf un gyda'r nos, tuag adeg y Pasg, yn glir iawn. 'Roeddwn wedi trefnu "Helfa Drysor" traws-gwlad ar eu cyfer, a gadawodd y ceir, gyda phedwar o bobl ifainc ym mhob un, i grwydro'r wlad, datrys cliwiau, gweithio allan ble 'roedd y cliw nesaf i'w gael, ac ar ôl cwblhau eu papur cwestiynau, dychwelyd i fwyty – pizzeria, fel mae'n digwydd – yng nghanol Glasgow.

Aeth un car ar goll yn llwyr, a gorfod agor yr "amlen ddirgel" oedd yn cynnwys enw'r bwyty, y byddent wedi medru ei weithio allan pe baent wedi medru datrys y cliwiau'n llwyddiannus – a dyna ddiwedd ar eu siawns o ennill y wobr am gyrraedd gyntaf! Ond pan gyrhaeddont, gan gynnwys Carolyn a mi, 'roedd 22 ohonom o gylch y bwrdd.

'Roedd lefel y sŵn – y siarad, a'r chwerthin, a'r tynnu coes, a'r jocs - yn anhygoel, ond er fy mhryderon, 'roedd y cwsmeriaid eraill yn y pizzeria fel petaent yn mwynhau'r holl firi! Ac yn sydyn, daeth y bwyd.

A chofiaf gael pwn penelin yn fy ochr. "Wyt ti am ddweud Gras Bwyd?"

A dyma floedd newydd, ar draws y sŵn a'r hwyl. "Hei! Shhhhhh! Mae o am ddweud Gras Bwyd..." Ac fe ddisgynnodd y distawrwydd mwyaf rhyfeddol, nid yn unig ar ein bwrdd mawr ni, ond ar y bwyty i gyd.

Bu oediad o efallai ddau eiliad ar ôl yr "Amen" – a ffrwydrodd y sŵn allan eto!

Ond am eiliad, 'roedd y bwyty hwnnw'n llawn o bresenoldeb Duw.

I Gristnogion, dyna ystyr yr Atgyfodiad. Y darganfyddiad o Dduw lle na fyddech erioed wedi disgwyl ei gyfarfod. Mae Luc a Ioan yn adrodd stori ymddangosiad y Crist atgyfodedig tros fwrdd bwyd, yno'n ddisymwth, yn bresenoldeb byw ynghanol bywyd, yn trawsffurfio tristwch a phoen ei ddisgyblion. Ni allaf ddarllen y straeon hynny bellach heb feddwl am y presenoldeb byw oedd i'w gyfarfod mewn bwyty Eidalaidd yng nghanol Glasgow, un gwanwyn ugain mlynedd yn ôl. Bendith Duw Annisgwyl y Pasg arnoch i gyd!

**Y Parchg John Owain Jones**

**Mae'r Parchg John Owain Jones yn weinidog gydag Eglwys Unedig yr Alban ar Ynys Bute ers blwyddyn. Cyn hynny roedd yn weinidog yn ninas Glasgow. Mae ei dad - John Ifor Jones - yn byw ym Mhenrhyn-coch.**

# DOLAU

Daeth cynulleidfa luosog ac amlddiwylliannol i wrando ar yr Arglwydd Elystan-Morgan yn annerch Cymdeithas Wleidyddiaeth Gymraeg Aberystwyth ym Mhrif Neuadd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ar 10 Chwefror.

Rhannodd y siaradwr ei brofiadau yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, cyn trafod rhai o bynciau llosg y dydd, gan gynnwys dyfodol llywodraethiant yng Nghymru yn dilyn Refferendwm 2011, y rhagolygon ar gyfer cynnal refferendwm ar fater annibyniaeth i'r Alban, a'r posibilrwydd o ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi. Roedd hi'n noson arbennig iawn a gwerthfawrogwyd y modd deniadol y trafodwyd pob mater oedd dan sylw.

Gyda'r Arglwydd Elystan-Morgan yn y llun (chw-dde) mae Einion Dafydd, o Benrhyn-coch, a chadeirydd y noson, Dr Huw Williams, o Llandre, ill dau o Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwth.

### Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus hwyr i Gaenor Hall, Minafon, a ddathlodd ben blwydd arbennig ar Fawrth 8fed.




# Cyrnol Peithyll

Ar ôl gweld y llythyrau diddorol am Gronfa Edward Lewis Pryse ochr yn ochr â'm herthygl yn rhifyn Ionawr rwy'n parhau â stori'r Cyrnol y tro hwn. Beth bynnag a feddyliwn ni o'r weddi am ei adferiad gan addolwyr Capel Dewi ym 1870, bu fyw hyd fis Mai 1888. Mae hynny'n dwyn i gof weddi'r Brenin Heseceia, gwael ei iechyd, yn gofyn i Dduw estyn ei einioes (2 Brenhinoedd 20 ), ac fe ddigwyddodd hynny – 'Ychwanegaf bymtheg mlynedd at dy oes', oedd ateb yr Arglwydd. Fe fu'n teyrnasu wedyn am bymtheng mlynedd cyn marw – ond fe fu'r Cyrnol fyw am ddeunaw mlynedd! Ef oedd Arglwydd Raglaw'r sir o 1858 hyd ei farw, a'r A.S. o 1857 hyd nes iddo ymddeol ym 1868 gan ymroi i amaethu, hela a physgota.

Mae'r *Cambrian News*, wrth adrodd am ei ymadawiad sydyn yn nodi'i fod yn hawlio bod yn ddisgynydd uniongyrchol i Harri'r 7fed ac yn ei ddisgrifio fel 'Grand old bachelor autocrat'. Doedd e ddim yn hapus gyda'r Rhyfrydwyr ac yn gwrthwynebu mesur Hunanlywodraeth Gladstone. Gyda'i farw, meddir, daeth hen drefn credu fod gan ei dylwyth hawl (ddwyfol efallai) i lywodraethu i ben. Awgrymir nad oedd yn ddigon iach i fynd i hela yn Nanteos fore'i farwolaeth a'i fod yn hytrach am fynd i bysgota i Lyn Rhosrhydd, oedd wyth milltir o'r Peithyll. Gwelodd mab John James, Abercwmdole e'n mynd heibio ar ei geffyl am 10.30 ond erbyn 11 daethpwyd o hyd i'w gorff rhwng Pwllcenawon a Rhiwarthen Isaf gan ddwy ffrind o Drefechan, Mary Jones a Mary Reilly, a'r ceffyl yn ei ymyl 'Clot' oedd unig air esboniad y Dr Gilbertson, ei feddyg - yr un meddyg a oedd gydag e ym 1870 adeg y weddi enwog.

Yr hyn sy'n drawiadol ynglŷn ag angladd y Cyrnol yw mai nid offeiriad teulu Gogerddan oedd yn cynnal y gwasanaeth i 500 o bobl yn Peithyll, cyn mynd i gladdfa'r Prysiaid ym mynwent Eglwys Llanbadarn Fawr, ond gweinidog mwyaf adnabyddus y Methodistiaid yng ngogledd Ceredigion ar y pryd, Enoch Watkin James, Brynllys, y Borth. Diddorol hefyd oedd darllen mai yn Gymraeg y bu'n darllen a gweddïo ac wedi mynd i Eglwys Llanbadarn Fawr canodd côr yr eglwys 'O dangos im yr Arglwydd Nêr', yn Gymraeg a'r gynulleidfa'n ymuno i ganu'r emyn 'O Iachawdwr pechaduriaid', eto yn Gymraeg. Cyfeirir at yr angladd ac angladdau eraill teulu Gogerddan y bu Enoch James yn gwasanaethu ynddyn nhw, gan y Parchedig John Evans, Abermeurig, yr hanesydd a'r bywgraffydd, yn ei gyfrol, *Yr Ail Fyr-Gofiant*, - 'Hanes 19 o Weinidogion Sir Aberteifi a fuont feirw oddi ar ddiwedd 1894 hyd ddiwedd 1907':

"Dyn gwledig, garw ei ffordd ydoedd, ond yn ŵr bonheddig yr un pryd, ac ym mhob modd yn gymwynaswer ei genedl a'i wlad. Yr oedd parch mawr iddo yn nhŷ ei arglwydd tir yn Gogerddan tra bu fyw, er ei fod yn weinidog Ymneilltuol. Yr oedd yntau yn teimlo fod gan wleidyddiaeth, gwyddoniaeth, a chelfyddyd, lawer o ddylanwad arno, yr hyn a wyddai teulu Gogerddan yn dda. Fel y cyfryw byddai yn cael ei gydnabod yn achlysurol ganddynt. A phan yn claddu eu meirw, rhaid oedd ei gael ef i gymeryd rhan yn yr addoliad ar y pryd. Pan fu farw Mrs Fryer, mam Syr Pryse Pryse, rhaid oedd ei gael i wasanaethu wrth y tŷ yn y gladdedigaeth". Yn Lodge Park, Tre'r-ddôl ar 17 Tachwedd 1887, y digwyddodd hynny, a disgrifiwyd hi fel 'Relic of late Pryse Loveden Pryse M P'. Roedd wedi ail briodi gyda Henry Charles Fryer.


**Bedd Enoch Watkin James ym Mynwent y Garn**

Pe bai Enoch James yn fyw ym 1900 pan fu farw Pryse Pryse, aer Gogerddan, a drigai yn Lodge Park, ar ôl iddo gael ei wenwyno gan frathiad llwynog wrth hela, ac yntau'n ddeugain oed, mae'n siŵr y byddid wedi danfon neges i Frynllys i ofyn iddo godi'r angladd o'r cartref. Ond enw ei fab Richard yw'r cyntaf ymhlith cludwyr yr arch ac fe'i cynorthwywyd gan y Parchedig William Morgan, Pwll-glas; Richard Jenkins, Hen Hafod; J Bunce Morgan, Glanfred; J R James, Peithyll; R Thomas, Brysgaga; William Jones, Penpompren; Thomas Thomas, Neuadd yr Ynys; Edwards Nantsiriol; Hughes Dorglwyd a Williams, Cynnull Mawr – Ymneilltuwyr i gyd mi gredaf. Roedd Enoch Watkin James yn hen dad-cu i'r cyfaill Elystan Morgan a gan iddo ddweud pethau diddorol wrthyf amdano bydd raid sgrifennu rhagor am y gŵr amryddawn a'i dylwyth.

**W.J.E.**

# O'r Cynulliad Elin Jones AC



Rwy'n parhau yn bryderus iawn fod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn mynd ymlaen â'r cynlluniau i gael gwared ar wasanaethau o Ysbyty Bron-glais er eu bod nhw'n honni eu bod dal yn y broses o ymgynghori a 'gwrando' ar y bobl leol ynghylch eu cynlluniau. Yn ddiweddar, fe fynychais gyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Goffa Penparcau i drafod yr hyn fydd yn digwydd i wasanaethau iechyd Gogledd Ceredigion a chanolbarth Cymru os bydd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn cael eu gweithredu.

Mae'n amlwg y cynlluniau o bwys mawr i bobl Ceredigion, yn ogystal â'r rhai ddaeth o siroedd eraill i'r cyfarfod. Gwnaeth 550 o bobl ddod i wrando ac i holi cwestiynau yn y cyfarfod cyhoeddus ac fe gytunwyd i barhau â'r frwydr drwy gynnal gwrthdystiad o flaen y Senedd ym Mae Caerdydd. Byddaf i hefyd yn parhau i herio'r Gweinidog Iechyd ar y newidiadau mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda am eu cyflwyno i wasanaethau iechyd yr ardal.

Ychydig wythnosau yn ôl, roedd hi'n fraint cael cyflwyno tystysgrif a thorri'r rhuban ar gyfer gwasanaeth trafnidiaeth cymunedol newydd, sef y 'Bws Bro Bach'. Mae hwn yn wasanaeth newydd a fydd yn caniatáu i bobl hyn ddefnyddio un o'r ddau gerbyd sydd â chyfarpar i gludo cadeiriau olwyn, er mwyn mynd siopa, ymweld â'r doctor neu'r deintydd, neu i ymweld â theulu a ffrindiau. Rwy'n gobeithio y bydd y gwasanaeth newydd yn llwyddiant ac mae disgwyl iddo wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl hyn yr ardal sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

Yn olaf, roeddwn yn falch iawn i weld Urdd Gobaith Cymru'n dathlu ei phen blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Ers yn blentyn, mae'r Urdd wedi chwarae rôl sylweddol yn fy mywyd, ac mae gennyf atgofion melys iawn o gystadlu tra'r oeddwn yn iau. Mae'r Urdd wedi chwarae rôl hanfodol o fewn Cymru dros y degawdau diwethaf ar sail hybu ein diwylliant, ein hiaith ac ein traddodiadau, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn parhau i ysbrydoli Cymry ifanc am flynyddoedd i ddod.

# YSGOL PEN-LLWYN

### Pentre-bach

Fe fwynhaodd Dosbarth 1 drip i Bentre-bach ar ddiwrnod braf o wanwyn cynnar. Fe gafodd y bws dipyn o drafferth ein cyrraedd gan fod lori yn blocio'r heol am ychydig tua chyfeiriad Aberystwyth. Roedd yna dipyn o lawenydd ar wynebau'r plant felly wrth iddynt ddechrau ar eu taith. Rhaid oedd bwyta'r tocyn ar y bws cyn cwrdd â rhai o'u hoff gymeriadau.

### Picau ar y Maen

Hyfryd oedd blasu rhai o'r picau ar y maen a baratowyd gan blant dosbarth un gyda help Cathy ein cogyddes ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Ar fore'r ŵyl fe gafwyd gwasanaeth lle y rhoddwyd cyfle i'r plant sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd i berfformio yn ogystal a rhoi ffocws arbennig i fywyd Dewi. Yn ogystal rhoddwyd gwobrau i'r plant hynny a oedd wedi bod wrthi'n ddiwyd yn gweithio ar ddarnau o waith ar gyfer y dydd arbennig. Fe fuom yn dysgu am hanes yr anthem yn gynharach yn yr wythnos a gorffennwyd y gwasanaeth trwy ei chanu'n arbennig. Cawl oedd ar y fwydlen canol dydd ac mi oedd yna ddigon i fodloni Bendigeidfran!

### Pêl-droed

Fe chwaraeodd y tîm pêl-droed ei gêm cyntaf y flwyddyn yma yn erbyn Comins-coch. Gêm gartref oedd hon yn cael ei chwarae ar y 'top pitch' fel mae'n cael ei adnabod gan y plant. Roedd yn brynhawn gwlyb a niwlog ond er gwaethaf hyn fe gafwyd gêm i gynhesu'r galon. Roedd yna frwdfrydedd, taclo caled ond teg a pasio celfydd i'w weld. Ar ddiwedd y dydd Comins-coch oedd yn fuddugol ond fe gafwyd perfformiad arwrol gan fechgyn a merched Pen-llwyn. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm.

### Pasio'r banana yn ei flaen!

Sut ddylen ni godi ymwybyddiaeth o bythefnos fasnach deg? Wel cynnal ras gyfnewid sy'n cynnwys pob plentyn yn yr ysgol yn pasio banana anferth o amgylch y safle i gyd wrth gwrs. Cyfle i chwerthin a chael hwyl tra'n parhau i godi ymwybyddiaeth o'r modd y gallwn helpu safon byw cymunedoedd trwy brynu eitemau masnach deg yn ein siopau lleol.

### Perffeithio talentau

Fe gafodd plant o flynyddoedd 2-6 gyfle i werthfawrogi talent offerynnwyr y Sir yn perfformio yn y Neuadd Fawr. Hoff ddarn y plant oedd cerddoriaeth o 'Pirates of the Caribbean' ond 'Bohemian Rhapsody' oedd hoff ddarn yr oedolion yno. Fe ofynnwyd o'r llwyfan beth oedd 'Bohemian Rhapsody' yn Gymraeg? Ni ddaeth yna ateb synhwyrol fel ateb-oes gan rhywun gynnig?



**"Mi fyddai'n waith caled fod yn Sali Mali," meddai Evan wrth Owen ym Mhentre-bach.**



**Cathy wrthi'n helpu rhai o blant dosbarth 1 i goginio.**



**Huw yn ymdrechu'n galed a mwynhau'r ras gyfnewid.**


MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
Ffôn: 01970 820122

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Eisteddfod Ysgol

Er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi a chynnal traddodiadau Cymreig, cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol. Ar ôl wythnosau o ymarfer a chwblhau gwaith penodol ar gyfer cystadlaethau dosbarth, daeth yr amser i feirniadu ymdrechion y plant. Roedd hi'n ofynnol i bob unigolyn adrodd neu ganu neu chwarae darn offerynnol. Yn ychwanegol i hyn bu'r beirniaid yn dewis y goreuon o'r cystadlaethau dosbarth. Roedd pob tasg yn y gystadleuaeth yn ymwneud â Chymru. Ac ar gyfer y brif gystadleuaeth sef ennill 'Y Gadair', bu blwyddyn 5 a 6 yn cyfansoddi cerddi ar y thema'Fy Arwr i'. Roedd ansawdd y cerddi yn arbennig o dda eleni, ond, ar ganiad y corn, Shaun Jones o flwyddyn 6 a gododd o ganol y gynulleidfa i gipio'r Gadair. Llongyfarchiadau mawr i Shaun. Dyma'r gerdd fuddugol ar un o chwaraewyr pêl-droed Abertawe:-

### 'Fy Arwr i'

Y dorf yn galw amdano ymhen yr awr,
gan fod y 'Swans' ddwy gôl i lawr.
Pawb yn tawelu.
Rhai yn diflasu.
Oes unrhyw obaith nawr?

Rhaid ymlacio a pheidio danto;
daw fy arwr arno i wibio;
cic gornel wych,
i'r rhwyd yn syth;
fy arwr yn llwyddo i sgorio!

Parhau mae'r 'Swans' i bwyso.
Pasio, canolbwyntio a ffugio.
Gyda thacl arwrol
a sgil anfarwol,
mae fy arwr eto'n rhwydo!

Â munud i fynd dyma'r bychan
yn rhedeg a gwibio heibio'r cyfan;
ergyd fel taran,
cipio Y Cwpan!
Fy arwr, y gwyrthiol, Joe Allen!

Tecwyn y Tractor
(Shaun Jones)

Ac ar ôl cystadlu brwd drwy'r dydd, roedd pwyntiau'r tri thŷ yn agos iawn; ond Ystwyth a gariodd y dydd yn y pen draw. Da iawn i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau Eisteddfod Ysgol lwyddiannus iawn eleni eto. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r beirniaid profiadol am eu doethineb yn ystod y dydd, sef Mrs Ann Evans a Mrs Luned Richards.

## Dylunio'r 'Gadair'

Yn ôl y drefn cynhaliwyd cystadleuaeth ychwanegol er mwyn dylunio cadair fach fel gwobr i enillydd 'Y Gadair'. Eleni cyfuniad o ddyluniadau Abbey Sedgwick a Teleri Morgan oedd yn fuddugol. Diolch i Mr Carwyn Lloyd Jones am greu dyluniad mor effeithiol.

## Twmpath

Ar Fawrth y cyntaf, trefnwyd Twmpath yn Neuadd y Pentref i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Cafwyd gwledd o ddawnsio gwerin, gwobrau, gwisg ffansi, raffl, digon o fwyd a diod. Diolch i Erwyd Howells, Bryan Jones a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu noson wych a chodi swm da o arian i goffre'r ysgol.

## Clwb Cant

Yn ystod y Twmpath cyhoeddwyd enillwyr fis Mawrth. Dyma'r canlyniad:
1af - £25 Andrea Whitney, 63, Bryn Castell.
2il - £15 Anna van Son, Sŵn yr Wylan, Y Borth.
3ydd-£10 Jordan a Benjamin Jones, Maes Awelon, Pen y Garn.

## Diwrnod y Llyfr

Ar Ddiwrnod y Llyfr, daeth Angharad o Siop Inc i'r ysgol er mwyn rhoi cyfle i'r plant weld, darllen a phrynu amrywiaeth o lyfrau. Cafodd pob plentyn docyn er mwyn derbyn gostyngiad ym mhris unrhyw lyfr a brynwyd. Hoffai'r ysgol ddioch i Angharad am ei pharodrwydd i ymuno â ni.



**Shaun Jones-enillydd Y Gadair.**



**Plant y Meithrin a'r Derbyn ar Ddydd Gŵyl Ddewi.**




**Y Beirniaid a'r capteniaid.**

**Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
http://www.rhydypennau.ceredgion.sch.uk**

## CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2012.

Yr ysgrifennydd yw:
Mary Jones
Lleifior, 27 Glan Rheidol, Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3GG
☎ 01970 624408

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Ysgol Iach

Yn ddiweddar gwahoddwyd unigolion yn ymwneud ag Ysgolion Iach i sgwrsio gyda holl staff yr ysgol ynghyd â'r rhieni am faterion amrywiol. Croesawyd yr Heddlu, Amy Jones a Marian Clarke o'r Awdurdod Addysg Lleol ynghyd â'r nyrsys ysgol. Trafodwyd nifer o faterion gan gynnwys diogelwch unigolion, addysg cyffuriau a materion iechyd a lles. Cafwyd sesiynau holi ac ateb. Bu'r noson yn gyfle da i rieni i gwrdd ac i drafod unrhyw bryderon gyda phobl broffesiynol. Diolch i'r unigolion am eu parodrwydd i ddod atom ac i sgwrsio gyda'r rhieni a'r staff.

## Clirio Sbwriel

Ar brynhawn braidd yn ddiflas, aeth holl ddisgyblion yr ysgol i gasglu sbwriel o amgylch rhannau'r pentref. Rhannwyd y disgyblion i grwpiau ac fe'u gwelwyd yn casglu sbwriel o amgylch tir yr ysgol ynghyd âg ardal y Clwb Pêl-droed. Casglwyd llond wyth bag o sbwriel amrywiol.

## Hoci

Bu'r tîmau hoci'r yn cystadlu yn nhwrnament hoci "Activate" yn ddiweddar. Chwaraewyd nifer o gêmau a llwyddodd un o'r tîmau i gyrraedd y rownd gyn derfynol. Llongyfarchiadau iddynt. Diolch i Miss Cory am eu hyfforddi.

## Celf a Chrefft yr Urdd

Yn yr Eisteddfod Celf a Chrefft Rhanbarthol, llwyddwyd i ennill nifer o wobrau eleni eto. Diolch i Mrs Evans am ei holl waith cydlynnu ac i'r criw o rieni a ffrindiau brwd yr ysgol a ddaeth i weithio gyda'r disgyblion ar ôl ysgol ynghyd ag yn ystod gwyliau hanner tymor. Heb eu cefnogaeth ni fyddai chwarter y disgyblion yn cael yr un cyfleoedd. Bydd y buddugwyr yn symud ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llwyddwyd i ennill 15 gwobr Gyntaf, 9 ail a 2 drydydd mewn cystadlaethau megis, gwehyddu, dylunio a thechnoleg, tesctiliau, gwau, ffotograffiaeth creadigol 3D, ailgylchu a nifer mwy. Diolch i'r holl rieni, ffrindiau a pherthnasau i'r Ysgol a fuodd i mewn yn helpu ac yn cynorthwyo y plant. Edrychwn ymlaen i weld y canlyniadau cenedlaethol!

## Eisteddfod Ysgol

Ar y 1af o Fawrth, cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol. Ein beirniaid eleni oedd Mr a Mrs Eirian Evans a Rhodri Evans. Cafwyd rhagbrofion yn ystod y bore gyda 2 o bob llys yn symud drwyddo i'r Eisteddfod yn y prynhawn. Ar ddiwedd diwrnod hwyliog o gystadlu, lle gwelwyd pob plentyn yn yr ysgol yn cymryd rhan unigol, Seilo a fu yn fuddugol. Enillwyd cadair yr Eisteddfod gan Lowri Walther. Llongyfarchiadau i bawb am eu gwaith caled ac i'n beirniaid a'n cyfeilyddes, Heddwen Evans, am eu gwaith arbennig.

## Cyngerdd y Morlan

Ar noson Dydd Gŵyl Ddewi, bu côr yr ysgol wrthi yn diddanu yng nghanolfan y Morlan yn Aberystwyth. Fe'u gwelwyd yn canu nifer o ganeuon traddodiadol ynghyd â rhai o'u hoff ddarnau. Cynhaliwyd y noson i godi arian ar gyfer taith clwb nofio Aberystwyth i Saint Brieuc. Yn rhannu'r noson oedd Ysgol Gymraeg Aberystwyth ynghyd âg unigolion amrywiol. Cafwyd noson hwyliog iawn a braf oedd gweld y disgyblion yn cael y cyfle i ddangos eu doniau.

## Cawl a Chân

Fel rhan o noson Cawl a Chân yr Ysgol Feithrin, gwelwyd disgyblion y Cyfnod Sylfaen wrthi yn diddanu. Bu criw da ohonynt yn canu ac yn perfformio. Cafwyd llawer o hwyl a braf oedd eu gweld yn cael cyfle i berfformio o flaen cynulleidfa. Diolch i'r Ysgol Feithrin am y cyfle i ddod atoch i ddiddanu.

## Ymweliad â Chanolfan Rheidol

Cafwyd nifer o'r Plant Gwyrdd y cyfle i ymweld â Swyddfeydd Canolfan Rheidol i weld ac i arsylwi ar y modd y mae nhw'n arbed egni trwy'r adeilad. Rydyn ni yn ceisio gwneud yr un elfennau yn yr Ysgol trwy geisio torri i lawr ar ein defnydd o unedau trydan.

## Pentre Bach

Cafodd Dosbarth Mrs Evans, blwyddyn 1 a 2 y cyfle i fynd i aros dros nos ym Mhentre Bach! Ein thema am y tymor yw Cartrefi felly roedd yn gyfle gwych i'r plant i gael y profiad o aros yng Nghwesty Pili Pala ac yn Nhŷ Pêl-droed Nicw Nacw. Cafwyd amser wrth ein bodd yng nghwmni Bili Bom Bom lle ceisiwyd teithio yn ôl yn ei beiriant amser! Cysgodd pawb trwy'r nos, cawsom wersi coginio yng Nghaffi Sali Mali a digon o amser i chwarae yn rhydd ar draeth Sali Mali! Diolch i'r holl staff am eu hamser ychwanegol hefyd, roedd yn brofiad fythgofiadwy!



**Aelodau o Bwyllgor Plant Gwyrdd yr ysgol ar eu hymweliad â Chanolfan Rheidol.**



**Disgyblion blynyddoedd 1 a 2 ynghyd a'r staff a dreuliodd noson ym Mhentre Bach.**



**Capteiniaid Seilo a Stewi gyda Mr a Mrs Eirian Evans a Mr Rhodri Evans, Beirniaid ein Eisteddfod Ysgol**

GWASANAETH TEIPIO
Cysylltwch â
Mrs Glenwen Morgans
Heulwen
Penrhyn-coch
Ffôn: 01970 828041
Symudol: 07515494710
Ebost: glenwen.morgans@btopenworld.com

GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
01970 828693
mairllo@hotmail.com

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Liliy Pryce, blwyddyn 6 am ennill cystadleuaeth 'dylunio logo diogelwch' ar gyfer cwmni Bam Nuttall. Cafodd y logo ei ddefnyddio ar gyfer creu posteri a sticeri swyddogol yn ogystal â bod ar y siacedi a welir yn y llun. Yn y llun (chwith i dde) Emyr Thomas, Bam Nuttall, Lily Pryce a Ray Jones, Rheolwr safle Bam Nuttall.

Cafodd tîm pêl-droed Ysgol Craig yr Wylfa gêm arbennig yn erbyn Ysgol Cwm Padarn yn ddiweddar. Roedd hi'n gêm gyffrous iawn gan ddiweddu yn un gôl yr un. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm. Edrychwn ymlaen at gyfarfod â nhw unwaith eto yng nghystadleuaeth pêl-droed y cylch cyn hir.

### Pob Lwc / Croeso

Pob Lwc i Mrs Edwards sydd wedi cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth. Dymunwn bob hwyl iddi a'i gŵr Barry, ac edrychwn ymlaen yn arw at glywed unrhyw newyddion! Croeso cynnes i Mrs Ruth Lewis sydd wedi cychwyn ar ei swydd fel athrawes yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod mamolaeth Mrs Edwards. Mawr obeithiwn y bydd hi'n hapus iawn yn ein plith.

### Pob Lwc Mrs Edwards!

Mae plant yr ysgol wrthi'n cynllunio gwelliannau i ardal allanol yr ysgol. Dyma Courtney Perkins yn gwneud rhai mesuriadau pwysig ar gyfer y cynllun!

### Dathlu

Cafwyd dathliad arbennig yn yr ysgol ar Fawrth 1af gan ddathlu dydd ein Nawddsant, Dydd Gŵyl Ddewi Sant. Cafwyd gwasanaeth hyfryd yn y bore gyda phlant yr ysgol a'r cylch meithrin yn cymryd rhan, gan ganu caneuon, adrodd, darllen a derbyn tystysgrifau gwaith cartref. Fel rhan o'r dathlu, bu'r plant yn canu gwaith newydd, The People of Wales, gan y cyfansoddwr lleol Mr Michael James, (organydd Eglwys St. Matthew). Diolch yn fawr i Mr James am ei waith a hefyd am ganu'r piano i ni yn ein gwasanaeth. Diolch hefyd i holl rieni plant yr ysgol a'r cylch meithrin, ac i drigolion cymdeithas yr henoed am ddangos eu cefnogaeth. Diolch hefyd i aelodau'r GRhA am baratoi lluniaeth wedi'r gwasanaeth.

Ar noswaith Mawrth y 1af, cafwyd Cawl a Chân yn Neuadd Gymuned y Borth. Diolch o galon i Mrs Ceri Williams a Mrs Dulcie James, cyn athrawon yn Ysgol Craig yr Wylfa, am roi o'u hamser i gynnal y dawnsio gwerin. Cafwyd noswaith arbennig o hwyl a dathlu. Diolch yn fawr iawn i Margaret Griffiths am baratoi'r cawl blasus ac i Gymdeithas Rhieni a ffrindiau'r ysgol am drefnu'r noson lwyddiannus. Diolch hefyd i Rachel Brynllys (Rachel's Dairy) am ei rhodd garedig ar gyfer y raffl.











Dyma rai o ddisgyblion yr wythnos: (Chwith i dde) Eliza Williams, Joshua Williamson-Evans, Dylan Taylor a Skye Taylor.



# TASG Y TINCER

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o Dewi Sant y mis diwethaf. Gobeithio i chi fwynhau dathlu'r diwrnod pwysig ar Fawrth y 1af. Dyma'r enwau: Craig Edwards, 10 Pen-llwyn, Capel Bangor; Megan Lewis, Ystrad, Capel Bangor; Ianto Dafydd, Arosfa, Waunfawr, Caernarfon; Jessica Mai Evans, Talerddig, Nantyfallen, Bow Street; Griff, 11 Broncynfelin, Llangorwen. Diolch yn arbennig i ti Joshua, Cliff House, Y Borth am dy lun hyfryd o Dwynwen, o dasg mis Ionawr.

Roedd pob un o'r lluniau'n ardderchog, ond ti, Jessica, sy'n cael y wobr y tro hwn. Da iawn, bawb, a llongyfarchiadau i ti, Jessica!

Un digwyddiad pwysig sy'n dod ar ddiwedd mis Mawrth bob blwyddyn yw newid pob cloc ac oriawr ymlaen un awr. Dyma pryd mae'r dydd yn ymestyn go iawn, a'r nosweithiau a'r boreau'n llawer brafiach ac yn oleuach. Hwrê! Mae'n waith anodd cofio newid pob un cloc – teledu, DVD, oriawr, ffôn ac ati. Yr un y mae'n rhaid i mi gofio ei newid yw'r cloc larwm wrth ymyl y gwely!

Un o'r clociau enwocaf ym Mhrydain yw hwnnw ar dop Big Ben yn Llundain. Ydech chi wedi ei weld? Mae'n siŵr bod bob un ohonoch wedi clywed sŵn y cloc yn taro ar y teledu a'r radio, gyda'r 'bong' enwog! Ond a wyddoch chi mai enw'r gloch yn y tŵr enwog yw Big Ben, ac nid y cloc ei hun? Mae hi'n pwyso dros 13.8 tunnell!



Jessica Mai Evans

Hefyd, a wyddoch chi mai ar ôl gŵr o Gymru y mae cloch Big Ben wedi ei henwi, sef Syr Benjamin Hall, dyn pwysig o sir Fynwy yn ne ddwyrain Cymru? Cafodd Syr Benjamin ei eni dros ddwy ganrif yn ôl. Mae rhai yn dweud bod y gloch enfawr wedi cael ei henwi ar ei ôl am ei fod yn ddyn tal a thrwm iawn, ond rhan o swydd Syr Benjamin oedd gofalu am adeilad y Senedd yn Llundain, gan gynnwys gosod cloch yn y tŵr. Dychmygwch orfod symud bysedd y cloc anferth hwn wrth i'r awr droi, a hynny ddwywaith y flwyddyn!

Y mis hwn, wrth i ni gofio am yr awr yn newid, beth am liwio'r llun o Big Ben? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn Ebrill 1af. Mwynhewch eich gwyliau Pasg a'r wyau siocled!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Oed | Rhif ffôn


CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
*Sefydledig dros 30 mlynedd*
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200


ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 347 | MAWRTH 2012